Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN**<br>**17 MAI 2021**<br>**10.00 o'r gloch** | | **MONDAY**<br>**17 MAY 2021**<br>**10.00 am** |
| **CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW** | | **VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes**<br>**01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 20)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar yn dyddiadau canlynol:-

- 15 Mawrth 2021 (Arbennig)
- 22 Mawrth 2021

**4** **PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 21 - 28)

Cyflwyno i'w mabwysiadu, gofnodion drafft y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2020.

**5** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 29 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**6** **CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)** (Tudalennau 41 - 88)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir arbennig a gynhaliwyd ar 15 Mawrth, 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rhaglen, Rheolwr Cynllunio Busnes a Pherfformiad<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Dafydd Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Swyddog Cyfathrebu (GJ), Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod rhithwir arbennig hwn o'r Pwyllgor Gwaith.

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Bu i Mr Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ddatgan diddordeb personol nad yw'n rhagfarnu o ran eitem 2 ar yr agenda gan fod ei dad-yng-nghyfraith yn aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Talwrn.

### 2. ADRODDIAD GWRTHWYNEBU – MODERNEIDDIO YSGOLION ARDAL LLANGEFNI (YSGOL TALWRN AC YSGOL Y GRAIG)

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yn nodi'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn dilyn cyhoeddi hysbysiad statudol o fwriad y Cyngor i gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Rhoddodd Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid grynodeb o gefndir y cynnig a oedd yn rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ardal Llangefni a chyfeiriodd at yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd rhwng 6 Chwefror a 20 Mawrth, 2020 ar ddyfodol y ddwy ysgol. Ar ôl gohirio oherwydd y pandemig, craffodd y Pwyllgor Sgritiwni Corfforaethol ar y mater ar 10 Rhagfyr, 2020 ac yna fe'i hystyriwyd gan y

Pwyllgor Gwaith ar 17 Rhagfyr, 2020 a benderfynodd gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn. Mae'r broses ddilynol wedi arwain at y cam hwn o dderbyn yr adroddiad ar y gwrthwynebiadau i'r cynnig a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith.

Er mwyn cydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, adroddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y Cyngor wedi cyhoeddi hysbysiad statudol ar 18 Ionawr 2021 o'i fwriad i gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn. Yna cafwyd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod a ddaeth i ben ar 15 Chwefror, 2021. Derbyniwyd cyfanswm o 46 o wrthwynebiadau i'r cynnig. Er mwyn cydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rhaid i'r Cyngor, fel y cynigydd, gyhoeddi adroddiad gwrthwynebu yn disgrifio'r gwrthwynebiadau a gafwyd; cyflwynir hwn o dan Atodiad 1. Mae’r ffordd y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn delio gyda gwrthwynebiad i rybudd statudol yn dilyn trefn sydd yn unol â’r Còd Trefniadaeth Ysgolion ac sydd mewn grym ers mis Hydref 2013. Yn unol ag adran 5.3 o'r Cod, rhaid i awdurdodau lleol wedyn benderfynu a ddylid cymeradwyo, gwrthod neu gymeradwyo'r cynnig gydag addasiadau. Ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau a gafwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynnig gwreiddiol sef cynyddu capasiti Ysgol y Graig i *gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.*

Ailadroddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y cefndir hyd yma gan ddechrau gyda'r ymgynghoriad statudol ar ddyfodol Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a gynhaliwyd gan Swyddogion y Cyngor rhwng 6 Chwefror a 20 Mawrth, 2020 ar ôl cael eu hawdurdodi i wneud hynny ar ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith ystyried y papur cynnig ym mis Ionawr, 2020. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar ddiwrnod olaf yr ysgol cyn cyfnod y cyfyngiadau symud cyntaf o ganlyniad i'r pandemig byd-eang. Dylid nodi bod y Cyngor wedi derbyn llythyr gan Lywodraeth Cymru i gadarnhau bod Gweinidogion yn rhoi estyniad i'r Cyngor tan 19 Mawrth, 2021 i gyhoeddi unrhyw gynnig. Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 drwy gydol y broses hon. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw, ystyriwyd cynnig gwreiddiol y Cyngor a nifer o gynigion eraill yn fanwl. Cafwyd 57 o ymatebion ar-lein gan yr ymgynghoriad a 10 llythyr ac ymateb e-bost gan sefydliadau unigol a chymunedol. Awgrymwyd modelau addysgol eraill gan randdeiliaid ac fe'u haseswyd gan swyddogion yn erbyn meini prawf a phethau sy’n symbylu’r strategaeth moderneiddio ysgolion bresennol. Ar ôl ystyried yr holl ymatebion ac yn dilyn dadansoddiad cynhwysfawr o'u cryfderau a'u gwendidau yn erbyn y pethau sy’n symbylu’r Strategaeth, ystyriwyd mai'r cynnig gwreiddiol oedd y ffordd fwyaf priodol ymlaen oherwydd barnwyd ei fod yn bodloni gofynion y prif bethau sy’n symbylu’r Strategaeth o ran safonau; arweinyddiaeth a rheolaeth; bod adeilad yr ysgol yn ddigonol; lleoedd ysgol digonol, effeithlonrwydd cost; darpariaeth cyfrwng Cymraeg a defnydd cymunedol. Mae'r adroddiad yn Rhan B yn cyfeirio at y 12 o opsiynau amgen rhesymol yn lle cau Ysgol Talwrn a gafodd eu hystyried a’u hasesu ymhellach, ond a ganfuwyd nad oeddent yn bodloni prif sbardunau'r Strategaeth Foderneiddio Ysgolion na'r heriau a wynebir gan y ddwy ysgol. Bydd y cynnig, fydd yn costio tua £6m yn ôl yr amcangyfrif, yn cael ei ariannu 65:35 gan Raglen Ysgolion Band B 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru a gan y Cyngor drwy gyfuniad o dderbyniadau cyfalaf a benthyca heb gymorth. Yn seiliedig ar y cyfrifiadau a amlinellir yn yr adroddiad, mae'r cynnig yn fforddiadwy. At hynny, mae'r Cyngor o'r farn y byddai'n annoeth peidio â buddsoddi o ystyried y cynnydd yn nifer y plant yn yr ardal yn y gorffennol ynghyd â chynnydd rhagamcanol yn y dyfodol o ganlyniad i nifer o ddatblygiadau tai yn nalgylch Ysgol y Graig. Mae'r adroddiad hefyd yn gwerthuso effaith y cynnig ar genedlaethau'r dyfodol o ran anghenion hirdymor yr Ynys, llai o gost/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol; graddau'r cydweithio ag eraill yn y penderfyniad; cyfranogiad dinasyddion yn y broses o wneud penderfyniadau a’r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg.



DRAFT

Gan gyfeirio at yr Adroddiad Gwrthwynebu, tynnodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc sylw at y ffaith bod y 46 o ymatebion a gafwyd yn dod oddi wrth drawstoriad o randdeiliaid a bod llawer yn cynnwys mwy nag un rheswm dros wrthwynebu. Mae'r rhesymau hyn wedi'u grwpio'n gategorïau fel gwrthwynebiadau sy'n seiliedig ar – safonau yn Ysgol Talwrn; y pandemig; penderfyniadau cyfansoddiadol y Cyngor; effaith bosibl ar y gymuned; nad yw'r Cyngor yn gwrando; effaith bosibl ar y Gymraeg, effaith y broses ar iechyd meddwl; Ysgol Talwrn yn cael ei thrin yn wahanol; opsiwn o ffedereiddio; effaith ar eisteddfod y pentref; effaith ar y cylch meithrin; trafnidiaeth a diogelwch y ffyrdd; hawliau dynol plant; y ffordd y mae'r Cyngor wedi gweithredu'r Ddeddf Llesiant yn Asesiad Effaith y cynnig; costau'r cynllun; ymateb y Cyngor; maint dosbarthiadau; maint yr ysgol estynedig, a safle Ysgol Talwrn. Yn unol ag adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru 2013, mae'r Adroddiad Gwrthwynebu yn cynnwys crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith y gwrthwynebiadau fel y'u nodir yn yr adroddiad gan nodi'r ffactorau a'r broses sydd wedi arwain at y cam hwn. Gofynnwyd cwestiynau fel a ganlyn –

- Wrth nodi bod amrywiaeth o randdeiliaid wedi cael cyfle i gyfrannu yn ystod y broses ymgynghori statudol, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurder ynghylch a oedd yr Aelod Seneddol Lleol, Aelod Lleol y Senedd ac Aelodau rhanbarthol y Senedd wedi darparu unrhyw ymatebion, ac os felly beth oeddent.

  Cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod ymateb i'r gwrthwynebiadau wedi dod i law gan Aelod o'r Senedd Ynys Môn yn tynnu sylw at y ffaith ei fod wedi cael trafodaeth gyda rhieni yn Ysgol Talwrn a oedd wedi codi materion ymarferol ynghylch ymgysylltu â'r broses ymgynghori – yn benodol gyda Sgriwtini. Eglurodd y Swyddog fod yr Awdurdod wedi bod drwy broses gynhwysfawr ers mis Ionawr 2020 ac y dylid nodi bod y broses ymgynghori statudol wedi dod i ben cyn gweithredu'r cyfyngiadau symud cyntaf ar 23 Mawrth 2020. Mae'r Awdurdod hefyd wedi cyflwyno protocol ar gyfer Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini a ddiwygiwyd ym mis Hydref 2020 i ganiatáu i'r cyhoedd siarad mewn cyfarfodydd rhithwir. Roedd trigolion yn ymwybodol o'r weithdrefn hon drwy wefan y Cyngor ac ar 11 Tachwedd 2020 hysbyswyd pobl yn benodol am y protocol. Yn y cyfnod rhwng diwygio'r protocol a'r drafodaeth yn Sgriwtini ym mis Rhagfyr bu gohebiaeth bellach i roi gwybod i bobl am y broses newydd. Wedi hynny, derbyniwyd cais gan dri unigolyn yn mynegi diddordeb ac yn gofyn sut y gallent siarad yn y cyfarfod Sgriwtini. O'r tri hynny, tynnodd dau yn ôl a manteisiodd un unigolyn ar y cyfle i annerch y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 10 Rhagfyr ar ran rhieni a llywodraethwyr Ysgol Talwrn o dan Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini.

  Mae'r Aelod o'r Senedd hefyd yn codi pwynt bod teimlad nad oedd y plant eu hunain wedi cael cyfle i fod yn rhan o'r broses. Mae'r Awdurdod wedi ymateb drwy dynnu sylw at y cyfle a roddwyd i ddisgyblion fod yn rhan o'r broses a rhoi eu barn yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Mae'r Aelod o'r Senedd yn nodi ymhellach fod yr Awdurdod wedi atgoffa plant o'u hawl i fynegi eu barn o dan Erthygl 12 o Gonfensiwn Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig. Cred yr Awdurdod ei fod wedi gwneud hyn o dan drefniadau y cytunwyd arnynt hefyd gan y ddau Bennaeth.

  Mae a wnelo'r trydydd pwynt a godwyd gan Aelod Ynys Môn o'r Senedd â'r sylw na roddodd yr awdurdod ddigon o ystyriaeth i'r opsiynau amgen yn lle cau Ysgol Talwrn. Fel y cyfeiriwyd ato gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, gall yr Awdurdod ddangos ei fod wedi ystyried opsiynau amgen a modelau addysgol eraill fel rhan o'r papur cynnig ac wrth ystyried yr ymateb i'r cynnig gwreiddiol.

  Nododd y Pwyllgor Gwaith fod 27 o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn seiliedig ar safonau yn Ysgol Talwrn, a'u bod yn cyfeirio'n benodol at y ffaith fod safonau a lefel yr

DRAFT

addysgu yn Ysgol Talwrn yn uchel a bod yr ysgol wedi darparu addysg dda i blant. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurder ynghylch y rhesymu dros y cynnig ar sail safonau addysgol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc wrth gydnabod bod safonau addysgol yn Ysgol Talwrn yn dda a bod honno'n ysgol categori Gwyrdd (ysgol sy'n perfformio'n dda ac sydd angen y lefel isaf o gymorth) . Bydd symud ymlaen gyda'r argymhelliad yn golygu y bydd disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau lle nad yw'r ystod oedran yn fwy na 2 flynedd a lle mae adeilad yr ysgol yn bodloni safonau ysgolion yr 21ain ganrif sy'n darparu ansawdd arbennig i ddisgyblion ddysgu. Byddai adeilad a safle estynedig Ysgol y Graig yn addas i'r diben o ran bodloni gofynion Cwricwlwm newydd Cymru. Gallai mwy o staff yn Ysgol y Graig, sydd newydd ei hehangu, olygu mwy o amrywiaeth o fewn y cwricwlwm yn ogystal â mwy o gyfle i gael amrywiaeth o brofiadau allgyrsiol. Hefyd, fel rhan o'i ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd Estyn fod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o ran darpariaeth addysg ac arweinyddiaeth a rheolaeth i blant yn yr ardal. Er bod y ddwy ysgol wedi'u dynodi'n ysgolion Gwyrdd Categori A ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn cymryd golwg hirdymor i sicrhau bod ysgolion yn cael eu paratoi ar gyfer heriau yn y dyfodol; byddai'r cynnig, pe bai'n cael ei weithredu, yn sicrhau bod safonau yn y ddwy ysgol nid yn unig yn cael eu cynnal yn Ysgol y Graig estynedig ond yn parhau i wella.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod 24 o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn cyfeirio at effaith y pandemig, yn enwedig o ran amseriad yr ymgynghoriad. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am sicrwydd bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi sêl bendith i barhau â'r broses yng nghyd-destun y pandemig.

  Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod yr Awdurdod yn ymwybodol bod y deuddeg mis diwethaf wedi bod yn gyfnod cythryblus i gymunedau wedi cymryd ymagwedd mor sensitif â phosibl wrth gyrraedd y cam hwn yn y broses. Daeth yr ymgynghoriad statudol i ben ar 20 Mawrth, 2020 ar ddiwrnod olaf yr ysgol cyn cyfnod y cyfyngiadau symud cyntaf. Ar ôl hynny daeth yn amlwg na fyddai'r Awdurdod yn gallu bodloni'r amserlenni a bennwyd gan God Trefniadaeth Ysgolion 2018 ar gyfer cyhoeddi hysbysiad statudol o'i fwriadau. Felly, cysylltodd â Llywodraeth Cymru i ofyn am estyniad amser i ganiatáu iddo wneud hynny a chadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei sêl bendith ym mis Mai 2020. Ym mis Mehefin, 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fân ddiwygiad i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion i alluogi awdurdodau lleol i barhau i ymgynghori ar faterion trefniadaeth ysgolion yn ystod y pandemig; roedd hyn yng ngoleuni'r ffaith, er bod llawer iawn o ddysgu'n digwydd ar-lein, fod ysgolion ar agor o fis Gorffennaf, 2020 a oedd, at ddibenion y gwelliant, yn cyfrif fel diwrnod ysgol. Cyhoeddwyd diwygiadau pellach yn y cyfnod rhwng Medi, 2020 a Chwefror, 2021 gan atgyfnerthu'r gwelliant gwreiddiol ac o ganlyniad, mae'r Awdurdod o'r farn ei fod wedi dilyn y canllawiau a'i fod wedi mynd rhagddo yn unol â disgwyliadau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod 10 o'r gwrthwynebiadau yn codi'r mater o ffedereiddio, yn benodol y posibilrwydd o ffedereiddio Ysgol Talwrn ag Ysgol Llanbedrgoch a bod yr opsiwn hwn wedi'i gynnwys ymhellach yn yr adroddiad ymgynghori. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am fwy o eglurder ynghylch pam na ffafriwyd yr opsiwn hwn yn y pen draw.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y papur cynnig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Ionawr 2020 yn cydnabod ffedereiddio fel opsiwn perthnasol ac roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys ffedereiddio fel

opsiwn i'w ystyried. Yn yr adroddiad ymgynghori, ystyriwyd ac aseswyd 12 dewis amgen rhesymol yn lle cau Ysgol Talwrn ac roedd 5 ohonynt yn cynnwys elfen o ffedereiddio. Fodd bynnag, fel yr ymhelaethwyd arno yn y tabl yn adran 5.2.11 o'r ddogfen ymgynghori, ystyriwyd bod anfanteision yr opsiynau hyn yn drech na'r manteision. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr nad yw ffedereiddio Ysgol Talwrn ag unrhyw ysgol arall yn ei farn broffesiynol yn ateb yr holl heriau y mae'r ysgolion yn eu hwynebu yn y dyfodol; mae'r rhain yn cynnwys darparu digon o leoedd yn Ysgol y Graig; darparu digon o le i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru; mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl sydd ar gyfer Ysgol Talwrn yn fwy na chyfartaledd Ynys Môn; cynnal adeilad ysgol Ysgol Talwrn a fydd yn dal yn annigonol i ddiwallu anghenion addysgol yn y dyfodol; cynnal a sbarduno gwelliannau mewn safonau addysgol yn y tymor hir; sicrhau digon o amser digyswllt i Benaethiaid a mynd i'r afael ag agweddau ariannol. Am yr holl resymau hyn nid oedd o'r farn bod ffedereiddio yn opsiwn realistig yn achos Ysgol Talwrn.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod 8 o'r gwrthwynebiadau yn codi pryderon ynghylch trafnidiaeth a diogelwch y ffyrdd mewn cysylltiad â'r bwriad i symud disgyblion Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig estynedig. Wrth gydnabod y pryderon hyn, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurder o ran y sefyllfa draffig bresennol ar y ffordd o'r Talwrn i Langefni ac os caiff y cynnig ei gymeradwyo, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am sicrwydd ynghylch darparu cludiant diogel i'r ysgol ar gyfer disgyblion Ysgol Talwrn a lle parcio digonol yn Ysgol y Graig estynedig.

  Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod Ysgol y Graig bresennol wedi'i chynllunio fel ysgol werdd i annog disgyblion i gerdded a beicio i'r ysgol gyda llwybrau cerdded a beicio wedi eu darparu. Fe'i cynlluniwyd hefyd i ddarparu isafswm darpariaeth parcio yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru ar hyrwyddo cerdded a beicio. Fodd bynnag, mae problemau parcio y tu allan i Ysgol y Graig oherwydd y defnydd o geir i fynd â phlant yn ôl a blaen i'r ysgol ac mae'r problemau hyn yn parhau er gwaethaf ymdrechion i ofyn i rieni barcio'n rhesymol ac i annog eu plant i gerdded neu feicio i'r ysgol. Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai'n gyfle i wella'r sefyllfa bresennol a byddai'n golygu cynnal Asesiad Effaith Traffig o effeithiau ymestyn yr ysgol a chynnwys disgyblion o Ysgol Talwrn; byddai hyn wedyn yn rhan o gais cynllunio a fyddai'n cynnwys mesurau lliniaru i gynnwys darpariaeth ar gyfer maes parcio newydd y byddai angen ei gymeradwyo cyn y gallai'r cynnig fynd yn ei flaen.

O ran y sefyllfa draffig, mae arolwg ym mis Hydref 2019 yn dangos bod 17% o ddisgyblion Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Ysgol Corn Hir a 31% o ddalgylch Ysgol y Graig sy'n golygu bod 48% o ddisgyblion Ysgol Talwrn yn cymryd ffordd y B5109 o Langefni i'r Talwrn bob dydd. Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, ni fyddai angen iddynt wneud y daith hon. Er bod 67% o ddisgyblion Ysgol Talwrn yn dod o'r tu allan i'r dalgylch ac nad ydynt yn gallu cerdded na beicio i'r ysgol, dim ond 10 disgybl sy'n byw o fewn hanner milltir i'r ysgol ac yn debygol o gerdded neu feicio i'r ysgol. Rhagwelir y byddai'r cynnig yn golygu llai o symud rhwng Talwrn a Llangefni nag i'r cyfeiriad arall ar hyn o bryd. I ddisgyblion Ysgol Talwrn sy'n byw yn y Talwrn, byddai cludiant i'r ysgol ar fws/bws mini yn cael ei ddarparu yn unol â pholisi trafnidiaeth yr Awdurdod gan y byddai'n afresymol disgwyl i'r plant gerdded o'r Talwrn i Langefni. Dylid nodi hefyd, ers agor ffordd gyswllt newydd Llangefni, fod maes parcio ychwanegol ger Ffordd Penmynydd wedi'i ddarparu gan Goleg Menai sy'n golygu y gall myfyrwyr gael mynediad i'r ffordd gyswllt heb orfod pasio naill ai safleoedd presennol neu arfaethedig Ysgol y Graig sydd wedi'u hehangu.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod 13 o'r gwrthwynebiadau yn ymwneud ag effaith bosibl y cynnig ar y Gymraeg. Nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd fod asesiad effaith y Cyngor



DRAFT

a fydd yn parhau'n ddogfen fyw yn awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am sicrwydd pellach ynglŷn â'r effeithiau ar y Gymraeg a gofynnodd am eglurhad ynghylch sut y bydd statws "byw" yr asesiad effaith yn cael ei gynnal.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod nifer y plant sy'n siarad Cymraeg rhugl gartref yn uwch ar hyn o bryd ar gyfer disgyblion Ysgol y Graig (72%) nag ar gyfer Ysgol Talwrn (40%) sy'n darparu'r amodau i'r iaith ffynnu ymhlith plant sy'n symud i'r ysgol estynedig newydd pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. Cyfrifoldeb Tîm Arweinyddiaeth ehangach yr ysgol fyddai sicrhau datblygiad yr iaith a sicrhau bod plant yn cael cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn yr ysgol ac ymhellach, i weithio gyda chymuned yr ysgol i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith gartref. Fel ar hyn o bryd byddai disgwyl i'r ysgol hyrwyddo'r Gymraeg o fewn yr ystafell ddosbarth ac ar y cae chwarae yn unol â Siarter Iaith Gymraeg yr Awdurdod. Mae sicrhau bod yr asesiad effaith yn parhau i fod yn ddogfen fyw yn elfen bwysig o'r cynnig sy'n golygu y bydd y ddogfen asesu yn datblygu ac yn esblygu i adlewyrchu'r sefyllfa wrth symud ymlaen. Cyn y cyfyngiadau symud, roedd prosiect i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn siopau lleol wedi dechrau ac er y bu'n rhaid ei ohirio oherwydd y pandemig, bydd yn ailddechrau i gefnogi amcanion Strategaeth a Siarter Iaith Gymraeg yr Awdurdod o fewn cymunedau i ddatblygu'r iaith gyda phlant yn yr ysgol estynedig yn rhan annatod ohono. Mae cynlluniau eraill sy'n gysylltiedig â Chanolfannau'r Gymraeg, Fforwm y Gymraeg ac mewn partneriaeth â Menter Môn yn ogystal â Strategaeth 10 mlynedd y Gymraeg mewn Addysg i gyd yn elfennau allweddol wrth ddatblygu'r iaith.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod yn rhaid i'r asesiad effaith fod yn ddogfen fyw i alluogi'r Awdurdod i ofyn cwestiynau i'r gymuned yn rheolaidd am yr effeithiau sy'n codi, ac os felly sut y gall yr Awdurdod fynd i'r afael â nhw. Fel enghraifft, mae pwynt a godwyd yn yr adroddiad gwrthwynebu yn ymwneud ag effaith y cynnig ar eisteddfod y pentref yn Nhalwrn; mae'r Awdurdod o'r farn, os yw'r effaith yn golygu nad yw plant o Ysgol Talwrn yn cymryd rhan yn yr eisteddfod, yna dylai ystyried gweithio gydag Ysgol y Graig a'i disgyblion fel y gallant gymryd rhan ynddi a thrwy hynny godi ymwybyddiaeth am yr eisteddfod ymhlith llawer mwy o blant, eu rhieni ac ymysg cartrefi a allai fod yn fodel ar gyfer yr eisteddfod yn y dyfodol. Fel hyn byddai'r Awdurdod yn cymryd camau i liniaru unrhyw effaith wrth i'r cynllun ddatblygu.

Dywedodd y Cynghorydd Ieuan Williams, Aelod Portffolio Trawsnewid Gwasanaethau a'r Iaith Gymraeg ei fod yn credu ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn cymryd ymagwedd mor rhagweithiol â phosibl at alluogi eisteddfod y pentref i barhau.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod yr eisteddfod a diwylliant Cymru yn elfennau pwysig o fewn Ysgol y Graig bresennol, a bod disgwyl i'r meddylfryd hwn barhau.

Wrth gloi, diolchodd Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid i'r holl Swyddogion am eu gwaith paratoi drwy gydol y broses gynhwysfawr hon. Cyfeiriodd at y prif bethau sy'n symbylu'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion sydd wedi angori'r broses, ac ar ôl ystyried yr holl safbwyntiau a fynegwyd ac adborth ar hyd y ffordd ac yn arbennig y gwrthwynebiadau a gyflwynwyd, nid oedd yn credu bod y sefyllfa wedi newid yn sylfaenol. Croesawodd yr ymrwymiad i hyrwyddo'r eisteddfod leol ac i ddatblygu'r Gymraeg ond pwysleisiodd nad yw'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod yr iaith yn ffynnu yn gyfrifoldeb i ysgolion yn unig ac anogodd rieni a neiniau a theidiau i sicrhau eu bod yn trosglwyddo eu sgiliau Cymraeg i'w plant a'u hwyrion. Weithiau mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd ac mae cau ysgol yn un o'r rhai anoddaf. Cynigiodd fod y cynnig

gwreiddiol yn cael ei gymeradwyo, sef cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn. Cefnogodd y Pwyllgor Gwaith y cynnig.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r cynnig gwreiddiol, sef i gynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn.**

**Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 22 Mawrth, 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr (eitemau 1 i 5, a 10 i 12)<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai)<br>Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)<br>Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Gwasanaethau Oedolion)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Prif Swyddog Prisio (TDE)<br>Rheolwr Datblygu Economaidd (THJ)<br>Prif Swyddog Datblygu (Gwasanaethau Tai) (AJ)<br>Rheolwr Trwyddedu a Diogelwch Corfforaethol (SH)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Aled Morris Jones, G.O Jones, R. Llewelyn Jones, Bryan Owen, Dylan Rees, Dafydd Roberts, Rheolwr Sgriwtini (AGD), Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol) |

---

Croesawodd y Cadeirydd yr holl Aelodau a'r Swyddogion a oedd yn bresennol i'r cyfarfod rhithwir hwn o'r Pwyllgor Gwaith. Cyn dechrau busnes y cyfarfod, cyfeiriodd at sefyllfa Covid-19 yng Nghaergybi ac estynnodd ei diolch a'i gwerthfawrogiad i Swyddogion y Cyngor, y Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru am eu gwaith caled dros y penwythnos wrth gydlynu trefniadau profi Covid-19. Wrth ddiweddaru'r Pwyllgor Gwaith eglurodd fod nifer fawr o brofion wedi cyrraedd Caergybi y diwrnod cynt a'u bod ar gael i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ac ar ben hynny, ddydd Llun, bydd gwirfoddolwyr yn dosbarthu pecynnau prawf i aelwydydd – bydd hyn yn cymryd ychydig ddyddiau a gofynnir i bobl fod yn amyneddgar. Rhaid diolch i'r gwirfoddolwyr am neilltuo amser i gyflawni'r dasg hon ac i Medrwn Môn ac i'r Gwasanaeth Tai am arwain y gwaith.  Er diogelwch, gofynnodd i bobl beidio â dod am brawf heb wneud trefniadau ymlaen llaw. Mae trefniadau hefyd yn cael eu gwneud gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans i sefydlu canolfan brofi yng Nghanolfan Hamdden Caergybi yn y gobaith y bydd yn weithredol erbyn diwedd yr wythnos – mae hyn ar gyfer unigolion heb unrhyw symptomau Covid-19 . Mae'r ganolfan brawf bresennol yng Nghaergybi hefyd ar

gael ar gyfer profi galw heibio a thrwy ffenestr y car heb apwyntiad ymlaen llaw. Tynnodd yr Arweinydd sylw at y ffaith am mai dyma'r enghraifft gyntaf o ledaeniad cymunedol ar yr Ynys (heb un pwynt trosglwyddo adnabyddadwy), mae angen ymateb mewn ffordd wahanol i'r trefniadau blaenorol ac anogodd bawb yn Ynys Cybi i gymryd y prawf i ddiogelu eu hunain a chymuned ehangach Ynys Cybi.

## 1. DATGAN DIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Richard Dew ddatgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu yn eitem 7 ar yr agenda.

## 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI

Dim materion i'w hadrodd.

## 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 15 Chwefror, 2021 ac 1 Mawrth, 2021 i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2021 a 1 Mawrth, 2021.**

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Thachwedd 2021 i'w ystyried a nodwyd y newidiadau canlynol -

- Eitem 2 – Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2020 i 2030: Ystâd Mân-ddaliadau – wedi'i aildrefnu o 22 Mawrth, 2021 i gyfarfod 26 Ebrill 2021.
- Eitem tri (3) – Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai – wedi'i aildrefnu o 22 Mawrth, 2021 i gyfarfod 26 Ebrill 2021.
- Eitem 18 – Cynigion Cyllideb Ddrafft Cychwynnol 2022/23 – eitem newydd ar gyfer cyfarfod 8 Tachwedd 2021.
- Eitemau 20 i 23 – Eitemau'n gysylltiedig â Pherfformiad a Monitro'r Gyllideb – eitemau newydd ar gyfer y cyfarfod ar 29 Tachwedd 2021.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod o fis Ebrill i fis Tachwedd 2021, fel y'i cyflwynwyd.**

## 5. CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL – CHWARTER 3 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid oedd yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2020/21 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol yr adroddiad ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2020/21, cyfnod a oedd yn cyd-daro â'r cyfnod atal byr o bythefnos ym mis Hydref, 2020 a chyfnod y cyfyngiadau symud cenedlaethol ym mis Rhagfyr, 2020. Yn gyffredinol, mae 79% o Ddangosyddion Perfformiad yn cael eu hamlygu rhai Gwyrdd neu Felyn gyda pherfformiad arbennig o dda o ran rheoli absenoldeb staff a'r is-bennawd 'symud i wasanaethau digidol' lle mae'r holl ddangosyddion wedi gweld perfformiadau sydd wedi rhagori ar ganlyniadau blynyddol blaenorol yn ystod y pandemig. Dywedodd yr Aelod Portffolio na ellir tanbrisio pwysigrwydd cyfryngau



DRAFT

cymdeithasol i rannu gwybodaeth a dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiadau er mwyn sicrhau mwy o gydymffurfiaeth leol â rheolau cyfyngiadau symud cenedlaethol Covid-19. Mae sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor wedi gweld cynnydd o 8.5k o ddilynwyr ers diwedd Chwarter 3 2019/20 ac yn y cyd-destun hwn dylid cyfeirio at Dîm Cyfathrebu'r Cyngor sydd wedi rhannu negeseuon clir a chyson i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd drwy gydol cyfnod y pandemig. Mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol o aelodau'r gymdeithas sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol a bydd yn parhau i ddarparu ar gyfer eu hanghenion drwy ddulliau eraill. Ar gyfer yr ychydig feysydd hynny y nodwyd nad ydynt yn perfformio'n unol â'r targed, mae'r adroddiad yn esbonio pam ac yn cynnig mesurau lliniaru er mwyn ceisio gwella perfformiad wrth symud ymlaen i Chwarter 4 a thu hwnt.

Wrth gyfeirio at effaith y pandemig ar agweddau ar berfformiad y Gwasanaeth Cynllunio tynnodd y Cynghorydd Richard Dew, Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd sylw at adborth diweddar gan asiantau cynllunio lleol a nododd mai Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Ynys Môn yw'r unig un yn y rhanbarth sy'n parhau i ddarparu gwasanaeth mor agos i'r arfer â phosibl ar hyn o bryd.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad, er bod rhai Dangosyddion Perfformiad yn cael eu hamlygu'n Goch ac yn tanberfformio, bod y duedd sylfaenol ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad hynny ar i fyny sy'n galonogol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor ar 8 Mawrth 2021 lle craffwyd ar Gerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 3. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar am yr adroddiad a'r diweddariadau a ddarparwyd gan Aelodau Portffolio a Swyddogion yn y cyfarfod ac ar ôl ystyried y rheini ac esboniadau eraill, ac ar ôl gofyn am gael data digartrefedd ar gyfer ei gyfarfod nesaf, roedd y Pwyllgor yn hapus i dderbyn yr adroddiad gan nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol a'r mesurau lliniaru a amlinellwyd, ac i argymell hynny i'r Pwyllgor Gwaith.

Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith yr adroddiad cadarnhaol a'r gwaith da parhaus y mae'n ei adlewyrchu. Roedd yr Aelodau'n teimlo ei fod yn arbennig o galonogol o ystyried y gofynion ychwanegol ar holl staff y Cyngor dros y cyfnod hwn wrth ddelio â'r pandemig.

**Penderfynwyd derbyn adroddiad monitro'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 3, 2020/21 a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ac i dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir yn yr adroddiad.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON YSTÂD ELUSENNOL DAVID HUGHES AC YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn 2019/20 fel y nodir yn Atodiad A i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried a'i gymeradwyo.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Dywedodd ei fod yn falch iawn o allu adrodd am y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn cyfeirio ato i sicrhau bod y Gronfa'n cael ei defnyddio'n fwy at y dibenion elusennol y'i bwriadwyd sy'n dilyn cais a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Ebrill, 2019 i adolygu strwythur yr Ymddiriedolaeth i'r perwyl hwn. O ganlyniad, cymeradwywyd dyraniad untro o £55k ar gyfer pob ysgol uwchradd (o Gronfa Addysg Bellach 1/3 Ynys Môn) gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref, 2019 i ariannu cost Anogwyr Dysgu i ddarparu cymorth i uwch ddisgyblion sy'n dilyn cyrsiau TGAU a Safon Uwch sy'n arbennig o berthnasol o ystyried yr effaith y mae Covid-19 wedi'i chael ar ysgolion ac ar



DRAFT

ddysgu. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith hefyd ddyrannu £8,000 ychwanegol i bob ysgol uwchradd (o Gronfa Addysg Bellach 2/3 Ynys Môn) i ddarparu grantiau i gynorthwyo myfyrwyr dan anfantais ariannol i gael lleoedd mewn colegau a phrifysgolion a/neu gymorth i brynu llyfrau ac offer angenrheidiol i ddilyn cyrsiau yn y flwyddyn gyntaf. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig, nid oedd ysgolion mewn sefyllfa i wahodd ceisiadau yn ystod tymor yr haf 2019/20 ac o ganlyniad, ni ddyfarnwyd unrhyw grantiau. Gofynnir felly i ysgolion atgoffa disgyblion ar ôl iddynt ddychwelyd fod y grant ar gael ac annog ceisiadau. Yn ogystal â hyn, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn gweinyddu cynllun ysgoloriaeth i fyfyrwyr o gefndiroedd dan anfantais ariannol i ddilyn cyrsiau Prifysgol a Choleg drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd Aelod Portffolio Cyllid, er bod angen gwneud rhagor o waith, y gwnaed dechrau cadarn o ran defnyddio'r gronfa a rhoi cymorth ariannol i'r rhai y'i bwriadwyd.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at yr hyn y mae'r cyfrifon yn ei gynrychioli o ran cyfansoddiad Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn, ffynhonnell ei hincwm a diben y tair cronfa sy'n rhan o'r ymddiriedolaeth. Cadarnhaodd fod cynllun wedi'i roi ar waith gyda'r ysgolion uwchradd i weinyddu'r broses o ddyfarnu'r grantiau i ddisgyblion ond bod y pandemig wedi amharu ar y broses hon. Gobeithio yn awr, wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, y bydd ysgolion yn gallu dosbarthu a defnyddio mwy o'r cyllid yn nhymor yr haf nesaf. Ychwanegodd Swyddog Adran 151 ei fod yn gallu adrodd bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cadarnhau y bydd 4 myfyriwr yn derbyn grant o £500 ym mis Medi, 2021 ac y bydd y gwariant hwn yn cael ei adlewyrchu yng nghyfrifon 2020/21. Mae'r adroddiad yn amlinellu perfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn - cyfanswm yr arian ar 31 Mawrth, 2020 oedd £3,152,966 gyda thua £2.5m wedi'i fuddsoddi yn yr ystâd amaethyddol a'r gweddill mewn buddsoddiadau a/neu adneuon arian parod.

Diolchodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid am y gwaith a'r amser a dreuliwyd ar ailstrwythuro'r Gronfa er mwyn gallu cyflawni ei dibenion elusennol yn well a thrwy hynny wireddu'r manteision addysgol i ddisgyblion, ac am y cynnydd a wnaed wedi hynny. Roedd yn arbennig o ddiolchgar ar ran ysgolion Ynys Môn a'u disgyblion a gofynnodd i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc atgoffa ysgolion fod y grant ar gael. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr mai dyna'r bwriad.

**Penderfynwyd cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer 2019/20.**

## 7. FFIOEDD CARTREFI GOFAL Y SECTOR ANNIBYNNOL 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Oedolion yn gofyn am sêl bendith y Pwyllgor Gwaith i gynyddu ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol ar gyfer 2021/22 fel y'i cynigiwyd i'w ystyried.

*Gan ei fod wedi datgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu yn yr eitem hon, ymneilltuodd y Cynghorydd Richard Dew o'r cyfarfod pan drafodwyd y mater.*

Cyflwynodd y Cadeirydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad yn nodi, o 6 Ebrill 2016, fod y fframwaith ar gyfer asesu ariannol wedi dod o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol adolygu ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol yn flynyddol i gyd-fynd â newidiadau Llywodraeth Ganolog i fudd-daliadau a lefelau pensiwn ac, wrth bennu lefelau ar gyfer cartrefi gofal yn y sector annibynnol, mae angen i'r Awdurdod ddangos ei fod wedi ystyried costau'r ddarpariaeth yn llawn wrth bennu ei ffioedd gofal safonol. Fel mewn blynyddoedd blaenorol gwneir hyn mewn cydweithrediad â'r Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio Methodoleg Ffioedd Rhanbarthol. Mae'r Awdurdod yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r model hwn ar gyfer 2021/22 sydd wedi adlewyrchu



DRAFT

newidiadau mewn deddfwriaeth o ran pensiynau, y cyflog byw cenedlaethol a chwyddiant yn ogystal â chostau a briodolir i dalu costau staff asiantaeth. Nodir argymhellion Methodoleg Gogledd Cymru yn Nhabl 1 yr adroddiad ac maent yn seiliedig ar Elw ar Fuddsoddiad ar 10% ar gyfer 2020/21 a 2021/22.

Eglurodd y Cadeirydd fod yr Awdurdod, am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad, yn cynnig diwygio ychydig ar yr Elw ar Fuddsoddiad cyn ei fabwysiadu ar gyfer 2 gategori (Preswyl Oedolion a Phreswyl i Bobl Hŷn Bregus eu Meddwl – Elfen Gofal Cymdeithasol) ac felly mae'n argymell bod y cyfraddau a nodir yn Nhabl 2 yn cael eu cymeradwyo ar gyfer Ynys Môn. Efallai y bydd angen ystyried cyflwyniadau unigol gan ddarparwyr ynglŷn â'r ffioedd a gynigir. Ystyrir eithriadau i'r cyfraddau ffioedd os oes tystiolaeth glir i ddangos nad yw'r ffi a bennir yn ddigonol mewn unrhyw achos unigol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 o ran y goblygiadau i gyllideb y Cyngor, wrth bennu cyllideb 2021/22, fod darpariaeth ychwanegol wedi'i gwneud ar gyfer chwyddiant ar sail nifer y cleientiaid yng nghartrefi gofal/nyrsio annibynnol Ynys Môn yn y gorffennol. Er bod y cynnydd mewn lefelau ffioedd yn uwch na'r ddarpariaeth a wnaed ar gyfer chwyddiant, mae nifer y cleientiaid yn y cartrefi wedi gostwng ers hynny ac os bydd y nifer hwnnw'n parhau'n gyson, dylai'r gwariant aros o fewn y gyllideb. Mae nifer y cleientiaid y mae'r ffioedd yn berthnasol iddynt yn tueddu i amrywio bob blwyddyn beth bynnag gan arwain at amrywiadau yn y gyllideb wrth i'r nifer ostwng neu godi, felly ni ystyrir bod y ffaith bod y cynnydd mewn ffioedd yn fwy na'r ddarpariaeth ar gyfer chwyddiant yn destun pryder.

**Penderfynwyd –**

- **Cydnabod Methodoleg Ffioedd Gogledd Cymru, fel y cafodd ei gweithredu hyd yma gan yr Awdurdodau yng Ngogledd Cymru, fel sylfaen ar gyfer pennu ffioedd yn Ynys Môn yn ystod 2021/22.**
- **Cymeradwyo'r argymhelliad i gynyddu'r lefelau ffioedd fel y nodwyd yn Nhabl 2 yn yr adroddiad.**
- **Yn yr un modd ag Awdurdodau eraill, rhoi'r awdurdod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Swyddogaeth Adnoddau ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi unigol i edrych ar eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sylfaen i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cytuno gyda'r Aelod Portffolio, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Oedolion o'r cyllidebau cyfredol.**

**8. EI GWNEUD YN BOSIBL I GYNGOR SIR YNYS MÔN NEWID I FOD YN SEFYDLIAD CARBON NIWTRAL ERBYN 2030 - GAN DDARPARU RHAGLEN NEWID HINSAWDD GORFFORAETHOL NEWYDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr yn amlinellu'r camau i'w cymryd i ddarparu Rhaglen newid hinsawdd gorfforaethol newydd i gefnogi'r Cyngor i newid i fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, cyfeiriodd Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd at yr argyfwng newid hinsawdd fel un sy'n berthnasol i'r Cyngor yn gorfforaethol ac i wasanaethau'n unigol, a bod y Cyngor wedi ymrwymo i fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Er bod y ffocws uniongyrchol wedi bod ar reoli effaith pandemig Covid-19, mae'r argyfwng newid hinsawdd yn parhau. Bydd yn dod yn fwy pwysig wrth symud ymlaen a bydd disgwyliadau'n lleol y bydd y Cyngor yn cymryd camau pendant yn cynyddu. Er bod rhai pethau eisoes wedi'u cyflawni ar draws yr Awdurdod – ym maes Tai, Priffyrdd ac Eiddo er enghraifft - o ran lleihau'r defnydd o garbon, diogelu ac ychwanegu gwerth at yr amgylchedd

naturiol a lleihau teithio, mae gwaith y Cyngor ar newid hinsawdd yn gofyn am ddull corfforaethol hirdymor a phellgyrhaeddol. Er y bydd adnoddau ar gael, mae angen i ymateb y Cyngor gael ei ategu gan gynlluniau mesuradwy pendant a fydd yn gwneud gwahaniaeth.

Cytunodd y Dirprwy Brif Weithredwr y bydd proffil, arwyddocâd a disgwyliadau'r Cyngor i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â mater newid hinsawdd yn cynyddu dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, yn enwedig unwaith y bydd argyfwng Covid-19 drosodd. Bydd angen i'r Cyngor roi arweiniad clir yn fewnol ac yn allanol ar gyfer cymunedau a busnesau'r Ynys a'i bartneriaid, ac mae'r adroddiadau'n ceisio gosod sylfaen gadarn a fydd yn fodd i ystyriaethau newid hinsawdd gael eu hymgorffori ym mhob agwedd ar waith y Cyngor yn y dyfodol. Mae Adran 3.2.1 o'r adroddiad yn allweddol i nodi ymrwymiadau awdurdodau lleol o ran sefydlu llinell sylfaen, adrodd, monitro a darparu tystiolaeth o gynnydd ystyrlon tuag at darged 2030 o gyflawni statws carbon niwtral a rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi map ffordd cyn bo hir ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus a fydd yn cyd-fynd â'r ymrwymiadau hynny.

Mae'n bwysig bod newid hinsawdd a lles amgylcheddol yn rhan annatod o broses adfer Covid-19. Dylai cynlluniau adfer geisio cynnwys ac adeiladu ar y newidiadau mewn agwedd, ymddygiad a ffyrdd o weithio sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig. ond dylai hefyd gydnabod mai unigolion a'u penderfyniadau sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Felly dylai'r dull gweithredu fod yn un strategol a hefyd yn ddull sy'n seiliedig ar grwpiau sy'n cynnwys staff y Cyngor, trigolion yr Ynys a'r Aelod lleol o'r Senedd a'r Aelod Seneddol sy'n eu cynrychioli. Mae Adran 7 yr adroddiad yn egluro'r rhesymu ar gyfer y cynigion sy'n argymell y dylid cryfhau cydgysylltiad, capasiti ac arbenigedd corfforaethol yn y maes hwn er mwyn galluogi'r Cyngor i symud ymlaen yn bendant ac yn effeithiol â'r cyfrifoldeb newid hinsawdd, a hynny gyda chymorth adnoddau penodol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwilym O. Jones, Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor ar 11 Mawrth 2021 lle craffwyd ar yr adroddiad. Hysbyswyd y Pwyllgor a nodwyd bod maes newid hinsawdd yn faes arbenigol a phwysig iawn sy'n gofyn am newid diwylliant, a hynny'n golygu yn ei dro bod yn rhaid i'r sefydliad fynd ar daith ddysgu. Amlinellwyd y modd y mae angen i'r Cyngor newid y ffordd y mae'n gweithio i'r Pwyllgor, gyda phwyslais ar y ffaith bod hon yn daith hirdymor gyda chyfrifoldeb ar y Cyngor yn ogystal â'i holl staff. Cyfeiriwyd at y ddeddfwriaeth a'r polisïau allweddol ar newid hinsawdd ac at rôl y Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol a'r ymrwymiadau a wnaed gan bob awdurdod lleol a gynrychiolir ar y Panel. Cydnabuwyd bod y Cyngor eisoes yn mynd i'r cyfeiriad cywir i geisio dod yn sefydliad carbon niwtral a bod angen rhoi cyhoeddusrwydd ehangach i hyn; roedd y Pwyllgor yn croesawu'r sylw a roddir bellach ar y mater hwn er budd trigolion yr Ynys a bioamrywiaeth ehangach a chanmolwyd bwriadau'r adroddiad. Gwnaed pwyntiau ynglŷn â phwysigrwydd y broses gaffael o ran prynu nwyddau cynaliadwy a defnyddio cynhyrchion a chwmnïau lleol a hefyd mewn perthynas â'r gwahanol ffyrdd o weithio a llai o deithio o ganlyniad i'r pandemig a'r angen i gynnwys y gwersi hyn yng nghynlluniau'r Cyngor wrth symud ymlaen. Roedd y Pwyllgor hefyd yn awyddus i Reolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd, ar ôl ei benodi, ymweld ag ysgolion i addysgu'r genhedlaeth nesaf ar waith a chynlluniau'r Cyngor ar newid hinsawdd. Roedd y Pwyllgor Sgriwtini yn hapus i gefnogi ac argymell y cynigion o ran datblygu a gweithredu Rhaglen Newid Hinsawdd gorfforaethol newydd; recriwtio Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd a sefydlu Gweithgor Mewnol ar Newid Hinsawdd.

Yn yr un modd, croesawodd y Pwyllgor Gwaith yr adroddiad gan gydnabod bod newid hinsawdd yn un o flaenoriaethau pwysicaf y Cyngor o ran gwaddol a lles cenedlaethau'r dyfodol ac roedd Aelodau'n gwerthfawrogi'r gwaith ar adeg pan fo'r Cyngor yn dal i ddelio â'r pandemig a'i oblygiadau.



DRAFT

Roedd y Cynghorydd Ieuan Williams, Dirprwy Arweinydd yn ddiolchgar am yr adroddiad fel man cychwyn gwerthfawr ac wrth ddweud ei fod yn edrych ymlaen at dderbyn rhaglen glir a manwl gyda chostau ac amserlenni cyflawni, holodd pryd y gellid disgwyl rhaglen o'r fath. Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weithredwr y bydd datblygu cynllun gweithredu manwl yn flaenoriaeth gynnar unwaith y penodir Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd. Gobeithio y gellir gwneud y penodiad cyn yr haf, yr amcan wedyn fyddai sefydlu cynllun gweithredu cychwynnol i'w gyflwyno drwy'r broses ddemocrataidd erbyn diwedd y flwyddyn galendr.

Tynnodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid sylw at y ffaith bod Cyllideb 2021/2022 yn gwneud darpariaeth gychwynnol ar gyfer gwaith newid hinsawdd i gydnabod ymrwymiad Llywodraeth Cymru a'r Cyngor i sicrhau sector cyhoeddus carbon niwtral.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd at y camau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd hyd yma i ddod yn sefydliad mwy cynaliadwy, effeithlon o ran ynni, sy'n ymwybodol o'r hinsawdd mewn perthynas â'i stoc tai, newid i gerbydau fflyd drydan, rheoli a gwaredu gwastraff a'r amgylchedd naturiol. Hefyd pwysleisiodd bwysigrwydd cael cynlluniau manwl i fod yn barod i fanteisio ar gyllid allanol sy'n gysylltiedig â gweithredu ar newid hinsawdd.

Wrth gydnabod y rôl sydd gan y Cyngor i'w chwarae, pwysleisiodd y Cynghorydd R.G. Parry OBE, FRAgS, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ei fod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru hefyd yn chwarae ei rhan i helpu awdurdodau lleol i wneud gwahaniaeth er enghraifft wrth gefnogi'r gwaith ehangach o gyflwyno mannau gwefru cerbydau trydan mewn mannau sydd ar gael i'r cyhoedd, megis mewn ysgolion ac adeiladau'r Cyngor. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod yr Awdurdod wedi cael trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o ddenu cyllid i greu cynllun gwefru cerbydau trydan ar gyfer Ynys Môn a fydd yn rhan o'r strategaeth genedlaethol sy'n cael ei datblygu. Tynnwyd sylw at y ffaith y gallai fod angen i'r atebion i Ynys Môn fod yn wahanol i'r rhai ar gyfer ardaloedd dinesig o ystyried ei natur fwy gwledig a'i bod yn bwysig sicrhau y caiff ardaloedd gwledig eu trin yn deg ac yn gyfartal.

**Penderfynwyd cefnogi a chymeradwyo'r canlynol –**

- **Datblygu a gweithredu Rhaglen Newid Hinsawdd gorfforaethol newydd fel bod yr awdurdod yn gallu newid i fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030.**
- **Mai'r Dirprwy Brif Weithredwr yw'r Uwch Berchennog Cyfrifol.**
- **Blaenoriaethu adnoddau ar ymrwymiadau'r awdurdodau lleol y cytunwyd arnynt yn y Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol (adran 3.2.1 yn yr adroddiad).**
- **Defnyddio cronfa gyfyngedig wrth gefn o £400,000 i greu capasiti/arbenigedd penodol i arwain y gwaith o ddatblygu a chydlynu camau cychwynnol datblygu a darparu.**
- **Recriwtio Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd gorfforaethol i arwain ar ddatblygu a chyflawni.**
- **Sefydlu Gweithgor Newid Hinsawdd (gyda chynrychiolaeth wleidyddol) – grŵp cynghori, nad yw'n gwneud penderfyniadau, i wneud argymhellion a cheisiadau.**
- **Penodi Hyrwyddwr Newid Hinsawdd ar y Pwyllgor Gwaith, a**
- **Bod y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas yn cael ei benodi'n Bencampwr Newid Hinsawdd y Pwyllgor Gwaith.**

**9. DYFODOL CWRS GOLFF LLANGEFNI**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Dros Dro Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys yr adroddiad ymgynghori ar y bwriad i werthu Cwrs Golff Llangefni i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Amlinellodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd gyd-destun y bwriad i werthu cwrs Golff Llangefni a chyfeiriodd at yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ym mis Mai 2018 i gefnogi mewn egwyddor y bwriad i werthu tir y cwrs Golff ac aelwyd Ffridd ac ail-fuddsoddi’r elw i wella Canolfan Hamdden Plas Arthur. Cynhaliwyd proses dendro agored i reoli a gweithredu'r llain ymarfer, gyda Golf Môn yn sicrhau'r cytundeb tenantiaeth gyda'r Cyngor. Mae'r llain ymarfer, a ail-agorodd ym mis Ionawr 2019, wedi bod yn boblogaidd a llwyddiannus iawn a bydd yn parhau ar agor. Gan ei fod yn cynnwys cae chwarae, bu'n rhaid cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ddyfodol y cwrs golff o dan broses a ragnodir gan Reoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015 a diolch i'r Swyddogion am eu holl waith mewn cysylltiad â rheoli'r broses.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) fod y Gwasanaeth, yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn 2018 i gymeradwyo mewn egwyddor y bwriad i werthu'r cwrs Golff, wedi bod yn ystyried opsiynau ar gyfer ei ddyfodol. Roedd ffigurau defnyddwyr y cwrs wedi gostwng ac roedd y costau rhedeg wedi dod yn anghynaliadwy i'r Gwasanaeth. Wrth gynnal yr ymgynghoriad mae'r Cyngor wedi cadw at ofynion Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015 ac mae'n hyderus bod y broses a ddilynwyd yn gadarn, bod yr opsiynau'n realistig a bod modd eu cyflawni. Dywedodd y Swyddog fod y gwaith wedi cynnwys nifer o swyddogion o wasanaethau eraill a’i fod yn gwerthfawrogi ac yn ddiolchgar am eu mewnbwn i wneud y broses mor dryloyw ac agored â phosibl. Gan gyfeirio at Ganolfan Hamdden Plas Arthur, dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaeth fod y Gwasanaeth wedi nodi rhaglen fuddsoddi amlinellol yr hoffai ei gweld yn cael ei gweithredu ar gyfer iechyd a lles y gymuned leol a bod unrhyw oedi o ran bwrw ymlaen yn risg.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Economaidd fod cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus o dan Reoliadau Caeau Chwarae 2015 yn brofiad newydd ac yn her. Aeth ymgynghoriad ffurfiol cynharach ar y bwriad i werthu Cwrs Golff Llangefni yn fyw ar 9 Mawrth, 2020 a’r bwriad oedd ei gynnal tan 26 Ebrill, 2020 pe na bai'r pandemig wedi digwydd. Er mwyn paratoi ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus, comisiynwyd cyfreithwyr allanol i roi cyngor, arweiniad a chymorth i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Rheoliadau. Nid ydynt wedi codi unrhyw faterion ac mae hynny’n rhoi sicrwydd ynghylch cadernid y broses. Y penderfyniad sydd i'w wneud yw p’un ai y dylid gwerthu'r Cwrs Golff ai peidio gan ystyried nifer yr asesiadau effaith y bu'n rhaid eu cynnal o dan y Rheoliadau a gyflwynir fel dogfennau ategol.

Adroddodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, fod consensws yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 8 Mawrth 2021 lle cyflwynwyd y mater, ar ôl ystyried yr amgylchiadau a'r ffactorau perthnasol, mai gwerthu'r cwrs Golff oedd yr opsiwn mwyaf priodol gyda ffocws y drafodaeth wedyn ar sut y gellid gwneud hynny i sicrhau'r pris gorau posibl. Daeth y Pwyllgor Sgriwtini i'r farn y gellid gwerthu Tŷ Ffridd ar unwaith a defnyddio'r elw a geir o’i werthu i wella Canolfan Hamdden Plas Arthur ond y byddai gwerth tir y Cwrs Golff yn codi’n sylweddol pe bai'n cael ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fel tir datblygu pan adolygir y Cynllun nesaf. Felly, yr argymhelliad oedd y dylid gohirio'r gwerthiant er mwyn caniatáu i opsiynau ar gyfer gwneud hynny gael eu hystyried.

Ymatebodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd drwy ddweud ei fod, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini, wedi ymgynghori â'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r Prif Swyddog Cynllunio ynghylch y posibilrwydd o gynnwys tir y Cwrs Golff yn y CDLl ar y Cyd a'i fod yn gallu adrodd y byddai'r broses yn golygu cyflwyno tystiolaeth gadarn i ddangos pam fod angen datblygu yn yr ardal yn ogystal â dangos pam fod y safle'n addas i'w ddatblygu o ran amwynderau, traffig a seilwaith. Yn ogystal â hynny, byddai'n rhaid i berchennog y tir gynnig y safle fel safle posibl. Gall y broses fod yn hir heb unrhyw sicrwydd o lwyddiant, yn enwedig gan fod tir y cwrs Golff wedi'i leoli yng nghefn gwlad ac nad yw'n gyfagos i'r ffin ddatblygu. Byddai dilyn llwybr y CDLl ar y Cyd hefyd yn gwneud yr ymgynghoriad cyhoeddus yn annilys gan fod diben y gwerthiant yn

wahanol i'r hyn yr ymgynghorwyd arno, sy'n golygu y byddai'n rhaid ail-gynnal yr ymgynghoriad. Er y cydnabyddir nod y pwyllgor Sgriwtini i gael y gwerth gorau am yr ased, mae ffyrdd eraill o gyflawni hyn a gellid ystyried opsiynau eraill gyda mewnbwn proffesiynol Swyddogion o'r Gwasanaeth Eiddo. Er ei fod yn cydnabod yr angen i sicrhau'r pris gorau posibl am y tir, gallai ceisio ei gynnwys yn y CDLl ar y Cyd olygu na fydd ei werth efallai'‘n cael ei wireddu am nifer o flynyddoedd tra bod bwrw ymlaen â'r gwerthiant yn golygu y gellir buddsoddi'r enillion yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur er budd uniongyrchol i iechyd a lles cymuned Llangefni. Ar ôl ystyried hyn oll, cynigiodd yr Aelod Portffolio fod y geiriad yn cael ei ddiwygio ar gyfer argymhelliad 1 yr adroddiad i'r perwyl y dylai’r broses o werthu tŷ Ffridd a’r Cwrs Golff fynd rhagddi mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a'r Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd ac y dylid marchnata'r safle i gael yr incwm mwyaf posibl ar y farchnad agored wrth ei werthu.

Cytunodd y Cynghorydd R.G.Parry OBE, FRAgS, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod angen dybryd i fuddsoddi yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur ac y byddai gwerthu'r Cwrs Golff yn gwneud hyn yn bosibl. Gallai unrhyw fath o ddatblygiad ar y tir fod yn broblem i'r gymuned a byddai gosod y tir ar gyfer pori hefyd yn golygu costau i'r Cyngor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Robin Williams at y drafodaeth yn y Pwyllgor Sgriwtini ynghylch gosod amodau ar werthu'r tir er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu elwa o unrhyw elw a geir yn y dyfodol o ganlyniad i ddatblygiad er enghraifft a gofynnodd am eglurder ynghylch dichonoldeb trefniant o'r fath.

Dywedodd y Prif Swyddog Prisio y byddai'n bosibl rhoi cymal gorswm ar werthu tir y Cwrs Golff a'r unig amod fyddai y gallai unrhyw rwystr o'r fath a osodir ar werthu tir effeithio ar yr incwm a dderbynnir ar ei gyfer ar y diwrnod cyntaf. Byddai manteision, anfanteision ac effaith ymrwymo i gytundeb gorswm yn destun trafodaeth a chyngor proffesiynol gyda'r asiant yn ystod y broses werthu.

**Penderfynwyd –**

- **Symud ymlaen gyda gwerthiant cartref Ffridd gyda rhywfaint o dir a’r 42 erw sy’n weddill mewn ymgynghoriad â’r Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a’r Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd ac i farchnata’r safle i sicrhau’r incwm mwyaf posibl ar y farchnad agored i’w werthu.**
- **Ymgymryd ag isafswm o 6 wythnos o hysbysiad yn y wasg leol am Hysbysiad Penderfyniad yn nodi penderfyniad y Cyngor i waredu’r safle, ac**
- **Ail-fuddsoddi unrhyw dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir o waredu’r safle yng nghyfleuster hamdden Plas Arthur.**

## 10. DATGANIAD AM Y POLISI TRWYDDEDU 2021- 2026

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Dros Dro Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys Datganiad Polisi Trwyddedu ar gyfer 2021 i 2026 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Richard Dew, Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yr adroddiad yn nodi bod y Ddeddf Trwyddedu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu Datganiad Polisi Trwyddedu bob pum mlynedd i nodi sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau o ran rheoleiddio gweithgarwch rheoleiddiedig trwyddedig. Paratowyd y polisi drafft yn unol â chanllawiau statudol y Ddeddf Trwyddedu ynghylch ffurf a chynnwys y Polisi ac mae'n fersiwn ddiwygiedig a diwygiedig o bolisi blaenorol y Cyngor.

Ymhelaethodd y Rheolwr Trwyddedu a Diogelwch Corfforaethol ar gynnwys y polisi o ran yr egwyddorion a gymhwysir wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau, gwrandawiadau, adolygiadau ac apeliadau o dan y Ddeddf mewn perthynas â gwerthu a chyflenwi alcohol, darparu lluniaeth hwyr y nos a darparu adloniant a reoleiddir. Mae dyletswydd ar yr

DRAFT

Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau dan y Ddeddf gyda golwg ar hyrwyddo’r Pedwar Amcan Trwyddedu yn gyfartal, sef atal trosedd ac anhrefn; diogelwch y cyhoedd, atal niwsans cyhoeddus ac amddiffyn plant rhag niwed. Cyflawnir pwerau'r Awdurdod o dan y Ddeddf gan y Pwyllgor Trwyddedu, gan is-bwyllgor Trwyddedu neu gan un neu fwy o swyddogion sy'n gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig (gweler Atodiad D). Pan fydd ceisiadau'n cael eu hysbysebu, mae gan yr Awdurdodau Cyfrifol yr hawl i wneud sylwadau – mae Atodiad B yn rhestru'r awdurdodau hynny y mae'r Cyngor yn ymwneud â nhw wrth weinyddu'r polisi a deddfwriaeth. Mae'r Polisi hefyd yn nodi sut yr ymdrinnir â hysbysiadau digwyddiadau dros dro a thrwyddedau personol a thystysgrifau safleoedd clwb ac mae'n cyfeirio at y cysylltiad â Chynllunio a Rheoli Adeiladu. Mae’r Polisi hefyd yn amlinellu’r trefniadau o ran gorfodi.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn y dylid mabwysiadu'r Datganiad ar Bolisi Trwyddedu 2021-2026.**

## 11. CYNLLUNIAU CYFLAWNI A CHOMISIYNU GRANT CYMORTH TAI 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn cynnwys y Cynlluniau Cyflawni a Chomisiynu Grant Cymorth Tai ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Rhaglen grant ymyrraeth gynnar yw Grant Cymorth Tai i gefnogi gweithgaredd, sy'n atal pobl rhag bod yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa dai, neu'n helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw. Nid yw'r Grant Cymorth Tai yn ariannu'r ddyletswydd statudol sydd ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd. Mae gwasanaethau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai, yn hytrach, yn ymestyn y gwasanaeth statudol, yn ei ategu ac yn ei gynorthwyo i sicrhau bod y cynnig cyffredinol a roddir gan awdurdodau yn helpu pobl i gael y cartrefi priodol gyda'r cymorth priodol i lwyddo.

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Mummery, Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau yr adroddiad drwy ddiolch i Brif Swyddog Datblygu'r Gwasanaethau Tai am ei waith yn datblygu'r cynlluniau, yn enwedig gan mai dim ond dyddiau cyn y Nadolig y derbyniwyd yr hysbysiad gan Lywodraeth Cymru o'r dyraniad uwch. Er bod y cynnydd yn y grant i'w groesawu'n fawr, mae rhywfaint o bryder ynghylch ei barhad ar ôl 2021/22 a thu hwnt o gofio y bydd wedi'i ymrwymo at y dibenion a ddisgrifir yn yr adroddiad, er y deellir yn answyddogol y caiff ei gynnal ar y lefel hon o leiaf. Bydd dyraniad dangosol Ynys Môn ar gyfer 2021/22 yn cynyddu o fis Ebrill, 2021 £856,722.50 sef y cynnydd cyntaf yn y grant am 5 mlynedd gyda'r dyfarniad dangosol newydd yn £3,571,720.50. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r dyraniad wedi'i bennu ar £2,714,998, a dyrannwyd £2,643,866 ohono i'r elfen Cymorth Tai; £64, 923 ar gyfer Atal Digartrefedd (anstatudol) a £6,209 ar gyfer gorfodi Rhentu Doeth Cymru.

Tynnodd yr Aelod Portffolio sylw at y ffaith bod trafodaethau gyda darparwyr a rhanddeiliaid eraill a data a ddadansoddwyd wedi dangos dros y 18 mis i ddwy flynedd diwethaf bod newid wedi bod yn nifer yr atgyfeiriadau i'r Rhaglen Cymorth Tai ac yn nifer yr achosion cymhleth y mae angen cymorth ac ymyriadau wedi'u targedu arnynt. Cafwyd dros 1,000 o atgyfeiriadau yn 2019/20 a disgwylir gweld nifer cyfatebol os nad uwch o atgyfeiriadau yn 2020/21. Mae achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig, materion iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, unigolion sydd â hanes o droseddu a phobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn destun pryder yn enwedig wrth i gyfyngiadau Covid-19 gael eu codi pan ddisgwylir i lefelau digartrefedd, anghenion iechyd meddwl a cham-drin domestig gynyddu a dod yn fwy amlwg. O ganlyniad, rhagwelir cynnydd yn y galw am Wasanaethau Cymorth Tai. Ar hyn o bryd, mae unedau cymorth a gomisiynwyd gan y Gwasanaeth yr wythnos tua 700 gydag un uned yn cyfateb i un unigolyn neu deulu; mae'r niferoedd sy'n aros am gyswllt neu sy’n cale eu gosod ar restrau aros yn amrywio rhwng 45 a 90 o unedau a'r gobaith yw y gall yr arian ychwanegol gyfrannu rhywfaint at leddfu'r galw.

Ymhelaethodd yr Aelod Portffolio ar y defnydd arfaethedig o'r arian ychwanegol fel y nodir yn fanwl yn adran 4 yr adroddiad a chyfeiriodd at yr her o sicrhau bod y budd mwyaf posibl yn cael ei wireddu'n gyflym, yn enwedig gan y bydd angen recriwtio staff tra bo'r galw'n parhau i fod ar lefel uchel na welwyd ei debyg o'r blaen. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd 99.3% wedi'i ymrwymo i'w wario gyda balans o £19,775.21 yn weddill ac ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer unrhyw un o dair elfen y Grant Cymorth Tai. Yn yr un modd, gellir defnyddio'n hyblyg unrhyw lithriad a geir oherwydd problemau gyda recriwtio neu unrhyw ffactor arall a nodwyd.

Cydnabu Prif Swyddog Datblygu'r Gwasanaethau Tai fod llunio cynlluniau ar gyfer y dyraniad ychwanegol o fewn amserlen mor dynn wedi bod yn her; mae'r cyllid ychwanegol i'w groesawu a'r gobaith yw y bydd yn helpu i fynd i'r afael â'r lefel uchel o alw er bod pryderon am rai o'r grwpiau y mae'r cyllid yn eu cefnogi hyd yn oed pan fydd y pandemig wedi dod i ben.

Wrth groesawu'r cymorth cynyddol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22, nododd y Pwyllgor Gwaith bod lefel y cyllid Grant Cymorth Tai yn y dyfodol, yn benodol p'un ai a fydd yn cael ei gynnal ar y lefel uwch hon, yn dal heb ei chadarnhau. O'r herwydd, roedd y Pwyllgor Gwaith o'r farn y dylid annog Llywodraeth Cymru i roi sicrwydd tymor hir ynghylch ariannu'r Grant Cymorth Tai yn y dyfodol, yn enwedig yng ngoleuni'r pwysau ychwanegol y mae Covid 19 yn debygol o'u creu er mwyn i'r Awdurdod allu gwneud darpariaeth briodol i ateb y galw ond hefyd i'w helpu i gynllunio ei gyllideb yn unol â hynny.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo argymhellion Cynlluniau Cyflawni a Chomisiynu Grant Cymorth Tai Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2021-22, a thrwy hynny, sicrhau y byddir yn cydymffurfio â Thelerau ac Amodau'r Grant;**
- **Rhoi sêl bendith parthed y cyllid a ddyrennir i bob maes Gwasanaeth, fel yr amlinellwyd yn y Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl ac a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Grŵp Cynllunio Cymorth Tai aml-asiantaethol**
- **Anfon llythyr at Lywodraeth Cymru, ar ran yr Aelod Portffolio Cyllid a'r Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau, i gydnabod y cynnydd yn y dyraniad grant a hefyd i bwysleisio pwysigrwydd derbyn sicrwydd hirdymor ynghylch parhad y grant ar y lefel yma fel y gellir gwneud darpariaeth briodol ar gyfer y bobl hynny y mae'r cyllid yn eu cynorthwyo ac er mwyn hwyluso gwaith cynllunio cyllidebol ac ariannol.**

## 12. ADRODDIAD CYNNYDD GWELLIANNAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd adroddiad Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Oedolion ar y cynnydd a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Adroddodd y Cadeirydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol fod Panel Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd yn ystod y chwe mis diwethaf ac yn parhau i dderbyn tystiolaeth o ddatblygiadau ar draws Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd. Mae'r adroddiad yn darparu crynodeb o'r prosiectau/mentrau sydd wedi'u datblygu yn ystod y cyfnod. Mae hefyd yn galonogol nodi bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio o fewn y gyllideb ar hyn o bryd a bod Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd ar y trywydd iawn i gau'r flwyddyn ariannol ar sail hyn.



DRAFT

Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, er gwaethaf heriau dyddiol Covid-19 a'r galwadau digynsail ar staff, fod y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi llwyddo i barhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol yn ogystal â datblygu prosiectau datblygiadol ac arloesol ar draws y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd. Lansiwyd Cardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc yn ystod y cyfnod i dynnu sylw at statws person ifanc fel gofalwr ac mae fformat digidol hefyd wedi'i ddatblygu gan fod gofalwyr ifanc yn ffafrio cardiau adnabod digidol. Mae cynllun Cartrefi Clyd yn parhau i ehangu gyda'r trydydd Cartref Grŵp Bychan bellach yn mynd rhagddo a chynnig wedi'i wneud ar bedwerydd eiddo i Ogledd yr Ynys. Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau cyllid ICF i brynu byngalo ar wahân er mwyn cynnig gwell darpariaeth gofal dydd i blant ag anghenion cymhleth ac mae eiddo wedi'i nodi ac mae wrthi'n cael ei brynu. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi cydnabod yr angen i symud yn gyflym i ddull Dim Drws Anghywir wrth ymateb i les emosiynol ac anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc a fydd yn sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt pan fyddant yn gofyn amdano ac na fyddant yn cael gwybod eu bod yn curo ar y drws anghywir ac y dylent fynd i rywle arall.

Diweddarodd Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Oedolion y Pwyllgor Gwaith ar gynnydd yn y Gwasanaethau i Oedolion a chydnabu fod y cyfnod wedi bod yn heriol yn enwedig i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd, ac i ofalwyr a phartneriaid y Gwasanaeth ar draws y sector. Yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg fodd bynnag yw bod pawb wedi dod at ei gilydd i ddod o hyd i atebion creadigol i sicrhau bod cymorth wedi parhau i gael ei ddarparu i'r rhai sydd ei angen ac o ganlyniad, mae gwell cydweithredu. O ran ffrydiau gwaith penodol, comisiynwyd archwiliad annibynnol o Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion, y bwriad yw darparu trosolwg o faes gwasanaeth sy’n gymhleth, a llunio argymhellion clir y cytunir arnynt ar feysydd penodol y mae angen canolbwyntio arnynt er mwyn gwella'r canlyniad i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae tri Thîm Adnoddau Cymunedol bellach ar waith ac yn cyfarfod yn rhithwir. Mewn rhannau eraill o’r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, mae'r pandemig wedi achosi i rai agweddau gael eu gohirio – mae agweddau ar y gwaith ar y Strategaeth Cyfleoedd Dydd ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu wedi'u gohirio ar hyn o bryd ac mae’r gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Rhannu Bywydau wedi cael ei effeithio’n sylweddol – penderfynwyd y bydd y prosiect hwn yn parhau ond y bydd yn cael ei ehangu i gefnogi pobl hŷn. Gohiriwyd y gwaith o ehangu'r Hybiau Cymunedol yn yr un modd, er hynny, mae’r gwaith wedi parhau drwy gyfrwng rhithwir, er enghraifft, ar ddatblygu hybiau digidol.

Rhoddodd y Cynghorydd Aled Morris Jones adborth o gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 8 Mawrth, 2021 lle trafodwyd yr adroddiad a darparwyd diweddariadau mewn ymateb i gwestiynau a godwyd. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y gwelliannau a wnaed a chyflymder y cynnydd ac argymhellodd fod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo’r adroddiad.

**Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

# PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 16 Mawrth, 2020

**YN BRESENNOL:** Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)
Y Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau)
Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid)
Y Cynghorydd Richard Griffiths (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)
Barbara Jones (Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn)
Liz Fletcher (Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol y Gorllewin – Plant, BIPBC)
Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol)
Rhys Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc)
Huw Owen (Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol)
Dawn Owen (Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol)
Nia Hardaker (Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol)
Gwyneth Hughes (Uwch Reolwr Lles Addysg)
Keith Walters (Rheolwr Tîm Lleoli Plant)
Saul Ainsworth (Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro – Diogelu)
Melanie Jones (Rheolwr Integredig – Gwasanaethau Plant)
Llinos Edwards (Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal)
Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor)

**YMDDIHEURIADAU:** Llinos Williams (Rheolwr Gwasanaethau Tai)

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a llongyfarchodd Mr Fôn Roberts ar gael ei benodi'n Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddar.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2020 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**3 MATERION YN CODI**

**3.1 Polisi a Chanllaw Asesu Plant sy'n Derbyn Gofal**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro (Diogelu) ddiweddariad a chadarnhaodd bod dogfen bolisi asesu drafft wedi cael ei pharatoi a'i chylchredeg i'r Swyddogion Adolygu Annibynnol ac Arweinwyr Ymarfer er sylwebaeth. Mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu'r holl blant a gyfeirir at y Gwasanaeth p'un ai ydynt angen gofal a chymorth; a ydynt ar y gofrestr Amddiffyn Plant neu a fyddant yn dod yn blant sy'n derbyn gofal. Ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n parhau i dderbyn gofal am gyfnod hir ac y mae eu sefyllfa a'u hanghenion yn debygol o newid wrth iddynt dyfu,



DRAFT

mae'r Gwasanaeth yn ceisio sicrhau nad digwyddiad unwaith ac am byth yw asesu. Felly, cytunwyd y byddai pob plentyn/person ifanc sy'n derbyn gofal yn cael asesiad wedi'i ddiweddaru o leiaf unwaith pob deuddeg mis. Yn ogystal, pe byddai amgylchiadau'r plentyn/person ifanc sy'n derbyn gofal yn newid yn sylweddol e.e. dychwelyd i fyw at rieni geni, cael eu rhyddhau o ofal neu adael gofal, cael eu rhyddhau o'r ddalfa, oedolyn newydd yn ymuno â'r grŵp teulu neu enedigaeth brawd neu chwaer newydd, yna byddai angen diweddaru'r asesiad gyda'r nod o sicrhau fod gan y plentyn neu berson ifanc y mae'r Awdurdod yn gofalu amdano/amdani asesiad sy'n adlewyrchu eu hamgylchiadau presennol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mai'r nod yw gweithredu'r polisi o 1 Ebrill 2021 ymlaen; bydd safonau ymarfer mewnol yn cael eu diweddaru yn unol â hynny a thynnir sylw staff gofal cymdeithasol Plant at y newidiadau a byddant yn derbyn hyfforddiant.

Gofynnodd yr Uwch Reolwr Lles Addysg am gopi o'r polisi Asesu terfynol er mwyn sicrhau bod polisi'r Gwasanaethau Plant a'r Polisi Plant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer ysgolion yn cyd-fynd â'i gilydd.

**Cytunwyd i dderbyn ac i nodi'r diweddariad.**

**3.2 Adolygiad Archwilio Mewnol – Swyddogaeth y Panel Rhiant Corfforaethol**

Mewn perthynas â Chynllun Gweithredu'r Adolygiad Archwilio Mewnol a ddeilliodd o adolygiad Archwilio Mewnol o swyddogaeth y Panel Rhiant Corfforaethol i asesu a oedd ganddo drefniadau priodol ar waith i gefnogi a chynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau fel rhiant corfforaethol, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd adroddiad drafft yn cael ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ynghylch alinio'r Panel yn fwy agos â'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a defnyddio'r un strwythur llywodraethiant ar ei gyfer a thrwy hynny roi sylw i nifer o'r argymhellion a amlygwyd yn yr adolygiad Archwilio Mewnol. Pe byddai unrhyw oblygiadau o ran newid Cyfansoddiad y Cyngor yna byddai hynny'n cael sylw trwy'r prosesau democrataidd priodol dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**Cytunwyd i dderbyn a nodi'r diweddariad.**

**4 ADRODDIAD Y SWYDDOGION ADOLYGU ANNIBYNNOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddogion Adolygu Annibynnol fel rhan o'u dyletswydd i fonitro gweithgarwch yr awdurdod lleol yn rhinwedd ei swydd fel rhiant corfforaethol da o dan Rhan 6 Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru i'r Panel ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn darparu trosolwg o'r cyfnod ers adroddiad diwethaf y Swyddogion Adolygu Annibynnol i'r Panel ym mis Medi 2019 (gohiriwyd tri o bedwar cyfarfod y Panel yn 2020 oherwydd y pandemig) ac roedd yn cynnwys data a gasglwyd ar adegau gwahanol yn ystod y cyfnod.

Cyflwynodd Mr Huw Owen, Swyddog Adolygu Annibynnol, yr adroddiad a thynnodd sylw at y pwyntiau a ganlyn –

- Bod y sampl o achosion yr edrychodd y Swyddogion Adolygu Annibynnol arnynt yn dangos bod y sefyllfa o ran ansawdd asesiadau wedi gwella ond bod angen gwaith pellach er mwyn sicrhau bod asesiadau cyfredol ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn croesawu ymrwymiad polisi'r Gwasanaeth i ddarparu asesiad cyfredol ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal.
- Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn nodi'r gwelliannau sylweddol iawn mewn perthynas â darparu Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 wrth baratoi ar gyfer adolygiadau. Rhwng 1 Hydref 2019 a 22 Ionawr 2020, cynhaliwyd 199 o Adolygiadau a darparwyd adroddiad Rhan 6 ar gyfer 108 o'r adolygiadau hynny (90.7%). Yn yr un modd, yn ystod y cyfnod rhwng 14 Rhagfyr 2020 a 8 Ionawr 2021

derbyniwyd adroddiadau cryno mewn 29 adolygiad allan o 30 (96.6%); mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn croesawu'r cynnydd hwn yn fawr gan ei fod yn golygu y gellir paratoi yn fwy trwyadl ymlaen llaw.

- Er bod y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn croesawu'r cyfarwyddyd a roddwyd i Weithwyr Cymdeithasol eu bod i fod i rannu'r Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 gyda'r plant a Gofalwyr Maeth, mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dal i fod o'r farn nad yw'r cynllun yn hygyrch i blant, teuluoedd na gofalwyr maeth gan ei fod yn hirfaith ac yn ailadroddus. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn nodi bod y Gwasanaeth wedi dechrau ailystyried cynnwys y ddogfen ac er eu bod yn cydnabod na roddwyd blaenoriaeth i'r dasg hon yn ystod y pandemig, teimlant y dylid ailgychwyn y gwaith pan fydd yn bosib.
- Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol o'r farn bod cynnal cofnodion achos wedi bod yn gyson dda ers cryn amser ac yn nodi bod systemau ar waith i fonitro'r gwaith cofnodi.
- Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn parhau i fod o'r farn y byddai Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn briodol mewn rhai achosion. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn nodi parodrwydd ar ran y Gwasanaeth i drafod hyn ymhellach gyda Gofalwyr Maeth ond mae nifer yn bryderus ynghylch ysgwyddo'r cyfrifoldeb. Mae'n anodd gweld fod modd i'r Gwasanaeth wneud mwy yn y cyfeiriad hwn ac mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol cydnabod ei bod yn bwysig parchu safbwynt gofalwyr nad ydynt yn ystyried bod Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn addas ar eu cyfer ac mae'n yn derbyn na ddylid symud plant dim ond er mwyn cael Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn nodi ymhellach bod adolygiad trylwyr o'r Polisi sefydlogrwydd yn cael ei gynnal.
- Teimla'r Swyddogion Adolygu Annibynnol y gallai rhoi mwy o ffocws ar gynlluniau Llwybr Ôl-16, sy'n cael eu cyd-gynhyrchu â'r person ifanc, arwain at wella ymarfer yn y maes hwn.
- Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi addasu eu dulliau gweithio mewn ymateb i'r pandemig coronafeirws ac maent wedi llwyddo i gynnal adolygiadau drwy gydol y cyfnod clo a chynhaliwyd 357 allan o 366 (97.5%) o fewn yr amserlen statudol. Mae'r Uned Ddiogelu yn edrych ar ffyrdd o gryfhau'r broses adolygu gan gynnwys parhau i edrych ar wahanol fodelau er mwyn gwneud y broses yn fwy plentyn ganolog a thrwy wella amseroldeb cofnodion adolygiadau.
- Bod y cyfarfodydd chwarterol rhwng y Swyddogion Adolygu Annibynnol a'r Rheolwyr Gwasanaeth yn adeiladol ac yn fodd o gydweithio er mwyn gwella ymarfer. Mae trafodaethau diweddar wedi canolbwyntio ar addasrwydd templed y Cynlluniau Llwybr Ôl-16; sicrhau bod cyfarwyddiadau ac ymrwymiadau ar derfyn achosion gofal yn cael eu trosglwyddo i'r cynlluniau gofal dydd i ddydd ar gyfer plant a bod llyfr Stori Bywyd yn cael ei ddarparu ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal.
- Mae cysondeb Gweithwyr Cymdeithasol wedi gwella'n sylweddol ac mae data a gasglwyd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Ionawr 2020 yn dangos parhad o ran Gweithiwr Cymdeithasol mewn 41 allan o 51 adolygiad ac ar gyfer y cyfnod rhwng 4 Rhagfyr 2020 a 8 Ionawr 2021, roedd parhad o ran Gweithiwr Cymdeithasol mewn 23 allan o 30 adolygiad.
- Yn ystod Chwarter 3, 2019/20, roedd canran yr ymweliadau statudol yn 81% yn erbyn targed o 90% a bydd y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn parhau i fonitro perfformiad yn y maes hwn. Canfuwyd tystiolaeth hefyd o Weithwyr Cymdeithasol yn mynd tu hwnt i'r gofynion er mwyn darparu cymorth i blant a'u teuluoedd.
- Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn croesawu ffurfio tîm penodol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Phobl Ifanc 15 oed a hŷn. Mae'n galonogol hefyd gallu adrodd ynghylch cynnydd parhaus plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sydd wedi gadael gofal ac wedi cychwyn ar gam nesaf eu bywydau ac mae enghreifftiau yn cael eu darparu yn yr adroddiad.



DRAFT

Wrth gydnabod y gwaith caled a'r cynnydd sy'n cymryd lle dan amgylchiadau sydd yn aml yn heriol, cododd y Panel y materion a ganlyn fel meysydd i'w dilyn i fyny –

- Gan dderbyn nad yw pob person ifanc eisiau cymorth neu Gynllun Llwybr, ceisiodd y Panel sicrwydd bod y Gwasanaeth yn meddu ar y modd a'r capasiti i baratoi a chwblhau cynllun ar gyfer pob person ifanc cymwys sydd yng ngofal yr Awdurdod fel bod anghenion pob person ifanc yn cael eu cytuno a'u mapio'n glir.

  Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y cohort o bobl ifanc ôl-16 sy'n derbyn gofal wedi cael ei nodi ers cryn amser fel grŵp sydd angen mewnbwn ychwanegol ac roedd y Gwasanaeth wedi rhagweld y byddai'r niferoedd yn y grŵp hwn yn cynyddu eleni a'r flwyddyn nesaf yn gymesur â nifer y plant sydd wedi dod i mewn i ofal yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac a fyddai felly angen Cynllun Llwybr. Felly, mae'r Gwasanaeth wedi ffurfio tîm penodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc 15 oed a hŷn. Mae'r tîm wedi'i leoli o fewn y Grŵp Ymarfer arferol ac fe'i ffurfiwyd gan ddefnyddio adnoddau presennol ac mae ganddo Arweinydd Ymarfer sydd â phrofiad maith o weithio gyda phobl ifanc ôl-16 sy'n derbyn gofal, ynghyd â dau Gynghorydd Arbennig. Defnyddiwyd arian y Gronfa Gofal Canolradd hefyd i ddarparu dau weithiwr cymorth i ddarparu cymorth. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn bwriadu gweithio gyda Voices from Care Cymru i archwilio gwahanol ffyrdd o weithio gan elwa ar gyswllt mwy aml gyda phobl ifanc a hwyluswyd drwy weithio'n ddigidol yn ystod y pandemig. Defnyddiwyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth cysylltiedig â Covid-19 ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc a chyflwynwyd cais i'r arian hwn barhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

- Mewn perthynas â'r adolygiadau, wrth fynegi ei werthfawrogiad bod adolygiadau wedi parhau i gael eu cynnal drwy gydol y cyfnod clo, er drwy ddulliau rhithwir/digidol, a bod 97% wedi cael eu cynnal o fewn yr amserlen statudol, nododd y Panel y byddai'n fuddiol derbyn esboniad ynghylch pam na chwblhawyd y 3% oedd yn weddill o fewn yr amserlen. Yn ogystal nododd y Panel nad yw'r adroddiad yn sôn fawr ddim am ba mor effeithiol y mae'r plentyn/person ifanc wedi canfod ymgysylltu ag adolygiadau yn ystod y pandemig ac a fu cyswllt rhithwir yn fwy neu'n llai ymwthiol iddynt. Roedd y Panel yn teimlo y gellid defnyddio'r adborth i hysbysu ffyrdd newydd o weithio ar ôl y pandemig drwy ymgorffori technolegau newydd i'r broses adolygu a defnyddio'r hyn sydd wedi gweithio yn yr adolygiadau rhithwir a chyfuno hynny â chyfarfodydd wyneb yn wyneb i gynnig dull mwy hyblyg o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

  Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau cymdeithasol bod adborth gan bobl ifanc mewn gofal yn dangos bod lefelau cyswllt wedi cynyddu yn ystod y cyfnod clo cyntaf gyda Gweithwyr Cymdeithasol yn cysylltu yn wythnosol â phobl ifanc oedd wedi gadael gofal er mwyn sicrhau bod eu hanghenion ymarferol yn cael eu diwallu. Wrth ddod allan o'r cyfnod clo cyntaf, cytunodd pob person ifanc ar gynllun a oedd yn pennu amlder cyswllt wedi hynny a defnyddiwyd cyfran o'r arian ychwanegol Covid-19 i hwyluso cyswllt. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn tynnu ar adroddiadau arolygon o brofiadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o Covid-19 gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ar y cyd â phartneriaid eraill, gan gynnwys Voices from Care Cymru a Gofalwyr Ifanc, yn ogystal â phrofiad a mewnbwn Cynghorwyr Personol ôl-16 y Gwasanaeth ei hun. Fodd bynnag, byddai'r Gwasanaeth yn hapus i Voices from Care Cymru ymgymryd â darn penodol o waith ar sut y gellir defnyddio profiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ar Ynys Môn yn ystod y pandemig i wella ymgysylltu ymhellach.

- Gan nodi bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar amseroldeb asesiadau yn hytrach nac ansawdd, roedd y Panel eisiau gwybod sut mae'r Gwasanaeth yn bwriadu rhoi sylw i ansawdd asesiadau.

  Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol er bod safonau ymarfer yn nodi'r disgwyliadau mewn perthynas ag asesiadau, mae problemau o hyd gyda'r templed asesiad Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 o ran ei hyd, ei gymhlethdod a'i hygyrchedd. Mae gan y Gwasanaeth gynlluniau i adolygu cynnwys y ddogfen er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'i bod hefyd yn addas i bwrpas ac yn hawdd ei defnyddio. Er y bydd y gwaith yn cymryd amser a gofal a bod angen canolbwyntio arno yng nghyfarfodydd y Bwrdd WCCIS, y nod fyddai datblygu templed drafft newydd erbyn diwedd Chwarter 1 neu ddechrau Chwarter 2 2021/22. Mae swyddog yn y tîm Sicrhau Ansawdd hefyd yn archwilio ansawdd gwaith cymdeithasol.

  Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro (Diogelu) bod taenlen dracio wedi cael ei datblygu i roi trosolwg dydd i ddydd o waith sydd heb gael ei gwblhau. O ran gwella ansawdd, mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda'r tîm Sicrhau Ansawdd i wneud gwell ddefnydd o archwiliadau achos ac i wella ymarfer gyda'r bwriad o nodi themâu o'r archwiliadau ac i ddatblygu gweithdai sicrhau ansawdd lle gall ymarferwyr gwaith cymdeithasol gynnal eu sgyrsiau eu hunain ynghylch datblygu arfer orau.

- Wrth nodi bod y Gwasanaeth yn datgan y gallai bod angen adolygu polisi Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig yr Awdurdod, ceisiodd y Panel eglurhad ynghylch a yw'r Gwasanaeth yn ystyried bod angen cynnal adolygiad.

  Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu) Dros Dro y byddai'r Gwasanaeth eisiau i blant sy'n derbyn gofal hirdymor gan yr Awdurdod ddod yn destun gorchymyn preifat megis Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig a fyddai'n rhoi bywyd teuluol iddynt a sicrwydd o leoliad hirdymor. Mae'r hyn sy'n rhwystro gofalwyr maeth yr Awdurdod rhag gwneud ceisiadau yn cynnwys y cymorth ariannol ac ymarferol sydd ar gael. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i adolygu'r cymorth ariannol yn flynyddol sy'n golygu bod llai o sicrwydd o safbwynt deddfwriaethol o gymharu â gofal maeth. Mae rhai awdurdodau wedi dewis mabwysiadu dull 'dim niwed', felly er gwaetha'r gofyn i gynnal adolygiad blynyddol, mae ganddynt bolisi safonol sy'n golygu na fyddai unrhyw wahaniaeth yn y cymorth ariannol ac ymarferol a gynigir i ofalwyr maeth fel gwarcheidwaid arbennig nag y byddent yn ei dderbyn fel gofalwyr maeth. Mae angen trafod y mater ymhellach o fewn y Gwasanaeth cyn gwneud penderfyniad, ond gall fod yn ddull cost effeithiol gan fod y plant yn cael eu hannog i adael gofal cyhoeddus ac mae hynny'n fuddiol iddynt ac mae costau presennol yr Awdurdod yn gostwng gan fod ei ymwneud statudol yn lleihau.

**Wrth dderbyn yr adroddiad, diolchodd y Panel i'r Gwasanaeth a'i staff am y gwaith a'r cynnydd a wnaed ac roedd yn gytûn ynglŷn â'r gweithredoedd a ganlyn –**

- **Bod y Panel yn derbyn adroddiad cynnydd ar gynllunio llwybrau yn ystod y cyfarfod nesaf, gan gynnwys y ddarpariaeth a chynnwys Cynlluniau Llwybr ôl-16.**
- **Bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd yn ôl i'r Panel ynghylch unrhyw argymhellion ar gyfer addasu'r polisi Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig mewn perthynas â dull 'dim niwed'.**
- **Bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried sut y gall y Gwasanaeth ddangos ei fod yn gwella ansawdd asesiadau.**



DRAFT

## 5 ADRODDIAD IECHYD PLANT SY'N DERBYN GOFAL

Cyflwynwyd adroddiad y Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd yn rhoi diweddariad ar faterion iechyd mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal i'r Panel ei ystyried.

Amlygodd y Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal y pwyntiau a ganlyn –

- Ar 29 Ionawr 2021 roedd gan BIPBC 161 o blant sy'n derbyn gofal o dan gylch gwaith Cyngor Sir Ynys Môn – roedd 118 wedi'u lleoli yn Ynys Môn ac roedd 43 wedi'u lleoli mewn siroedd eraill o fewn PBC a thu allan i Ogledd Cymru.
- Bod 57 o blant sy'n derbyn gofal wedi'u lleol yn Ynys Môn o ardaloedd eraill yn PBC ac o'r tu allan i Ogledd Cymru.
- Cynhaliwyd 17 o asesiadau iechyd cychwynnol yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Medi 2020. Lle na chynhaliwyd yr asesiadau o fewn yr amserlen, rhoddir rhesymau i nodi pam fod yr asesiadau yn hwyr.
- Cynhaliwyd cyfanswm o 143 o Asesiadau Adolygu Iechyd yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2021 hyd yma.
- Cwblhawyd y mwyafrif o'r asesiadau iechyd yn rhithwir neu dros y ffôn a chynhaliwyd ymweliadau cartref dilynol os oedd unrhyw bryderon ynglŷn ag iechyd.
- Mae gweithio'n rhithwir wedi golygu y cafodd mwy o gyfarfodydd eu mynychu ac mae hyfforddiant rhithwir wedi gweithio'n dda ac fe'i cynhaliwyd ar sail amlasiantaethol. Mae colli cysylltiad wyneb yn wyneb â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi bod yn anfantais ac mae rhai pobl ifanc sydd mewn gofal yn ddihyder wrth gyfarfod yn rhithiol ac maent yn teimlo'n ynysig oherwydd y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Covid.
- Mae'r mwyafrif o atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd ychwanegol yn ymwneud â'r Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd. Dengys hyfforddiant y gall effaith trawma ar yr ymennydd fod yn sylweddol gan arwain at anhawster wrth brosesu gwybodaeth; o dan yr amgylchiadau hyn gall atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd fod yn fwy priodol nac i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAHMS). Mae ysgolion wedi datblygu dealltwriaeth dda o effaith trawma ar ddatblygiad plentyn ac maent yn cyflwyno rhaglen hyfforddiant i staff ynghylch y pwnc.
- Yn rhanbarthol o fewn BIPBC, mae cynllunio gweithlu o fewn y tîm nyrsio a gweinyddu Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei adolygu yn rhannol o ganlyniad i gynnydd graddol yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n dod yn blant sy'n derbyn gofal gan gael effaith sylweddol ar y llwyth gwaith.
- Cynhaliwyd cyfarfod Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal/CAHMS i edrych ar fapio gwasanaethau a ddarperir o fewn BIPBC gyda'r bwriad o gynorthwyo pan fydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn symud o un ardal BIPBC i un arall.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod yr Awdurdod, yn gyffredinol, yn ddiolchgar i BIPBC na chafodd y nyrsys Plant sy'n Derbyn Gofal eu hadleoli i feysydd eraill yn y Bwrdd Iechyd yn ystod y pandemig ac y cafodd cysylltiadau â'r holl asiantaethau eu cynnal.

Diolchodd y Panel i'r Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal am yr adroddiad a chodwyd y materion a ganlyn –

- Ac eithrio darparu data ynghylch nifer y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal sy'n cael eu hasesu neu sy'n derbyn gwasanaeth gan CAMHS, nid yw'r adroddiad yn glir ynghylch a yw ymyrraeth gan CAHMS yn ddigonol nac ynghylch yr effaith a gaiff o ran mynd i'r afael ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaeth.

  Hysbyswyd y Panel bod darparu gwybodaeth benodol am blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn broblemus, er gwaethaf sawl ymdrech, oherwydd anghydnawsedd systemau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu nifer o systemau casglu data ar draws ei

wasanaethau ac oherwydd problemau technegol nid yw'n gweithredu'r system WCCIS ar hyn o bryd, sef y system a gyflwynwyd i integreiddio gwybodaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn well. Felly, mae'n her nodi plant sy'n derbyn gofal o fewn y setiau data y mae BIPBC yn eu dal mewn ffordd sy'n darparu gwybodaeth amserol a chyfredol.

Yn dilyn trafodaeth bellach am allu'r Bwrdd Iechyd i nodi a darparu gwybodaeth systematig am blant sy'n derbyn gofal, cydnabu'r Panel bod y pandemig wedi amlygu a phwysleisio problemau sydd eisoes yn bodoli o ran systemau/TG y mae angen datrysiad hirdymor iddynt.

Wrth gyfeirio at anawsterau iaith a lleferydd a'r effaith y gallant gael ar ymddygiad plentyn, dywedodd yr Uwch Reolwr Lles Addysg y bu'r Gwasanaeth Addysg yn gweithio gyda Dechrau'n Deg ers nifer o flynyddoedd. Mae cynllun o'r enw Croeso wedi bod ar waith ers peth amser sy'n cael ei gyflwyno gan ymwelwyr iechyd ar gyfer plant rhwng 0 a 6 oed, ac erbyn hyn, mae wedi cael ei fabwysiadu nid yn unig mewn grwpiau meithrin ond mewn ysgolion hefyd. Mae'r cynllun yn gweithio trwy raglen sy'n cynorthwyo adnabod a oes gan blentyn anawsterau lleferydd gwirioneddol neu a yw ond yn araf yn gwneud cynnydd ac mae'n darparu'r dystiolaeth ar gyfer asesiad mwy diagnostig drwy ymyrraeth therapi iaith. Mae'r cynllun yn eistedd ochr yn ochr â'r gwaith gydag ysgolion sy'n ystyried trawma. Mae rhaglen bellach ar gyfer plant rhwng 6 ac 11 oed wedi cael ei phrofi gyda phum ysgol erbyn hyn. Yn anochel, mae anawsterau lleferydd a chyfathrebu yn cael effaith ar ymddygiad plentyn.

- Nododd y Panel fod capasiti of fewn y Gwasanaeth CAMHS yn thema gyson mewn trafodaethau a gofynnodd am ddiweddariad ar y sefyllfa.

  Hysbyswyd y Panel er y bu prinder o ymarferwyr CAMHS yn ardal y Gorllewin yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn ddiweddar mae'r Gwasanaeth Iechyd wedi llwyddo i recriwtio o'r tu allan i'r Bwrdd Iechyd gan olygu nad oes unrhyw fylchau mewnol angen eu llenwi ac mae lefelau swyddi gwag y Gwasanaeth yn gostwng o'r herwydd. Mae disgwyl i staff newydd gael eu hanwytho a derbyn hyfforddiant ond mae'r Gwasanaeth yn cadw ei ymarferwyr profiadol sydd yn symud i waith newydd e.e. ymyrraeth gynnar. Penodwyd Rheolwr Gwasanaeth newydd sydd yn ymarferydd CAMHS profiadol gyda chefndir gwaith cymdeithasol. Awgrymwyd i'r Panel efallai y byddai'n dymuno gwahodd y Rheolwr Gwasanaeth CAMHS i un o'i gyfarfodydd yn y dyfodol i esbonio rhai o'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan y tîm newydd.

- Wrth ystyried awgrym i ofyn i Swyddogion fapio'r gwasanaethau y mae plant sy'n derbyn gofal yn eu derbyn ar hyn o bryd, hysbysodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y Panel bod darn sylweddol o waith yn cael ei gomisiynu ar lefel ranbarthol i adolygu trefniadau awdurdodau lleol a gwasanaethau eraill a fydd, ymysg pethau eraill, yn edrych ar wersi i'w dysgu, gwneud pethau mewn ffyrdd gwahanol ac oblygiadau o ran adnoddau a fydd yn rhoi sylw i rai o'r materion sy'n codi. Efallai y byddai'n fuddiol disgwyl am ganlyniadau'r ymarfer rhanbarthol cyn cynnal adolygiad ar lefel leol.

  Felly, cynigiodd y Cadeirydd, a chytunodd y Panel, o ystyried y gwaith rhanbarthol, y dylai'r Swyddogion perthnasol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd ac Addysg gwrdd i archwilio capasiti ac adnoddau presennol i ddarparu'r gwasanaethau/ ymyraethau sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc ac i ystyried sut y mae ansawdd y ddarpariaeth yn cael ei arfarnu a'i fesur, gyda'r bwriad o ddarparu trosolwg lefel uchel yng nghyfarfod nesaf y Panel.

Wrth gau'r drafodaeth, roedd y Panel yn awyddus i gael gwybod a oedd unrhyw feysydd arbennig a oedd wedi creu problemau penodol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod yn ystod cyfnod y pandemig.



DRAFT

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol er iddo fod yn gyfnod dwys i Ofalwyr Maeth yr Awdurdod, bod nifer wedi gwerthfawrogi'r cyfle a grëwyd o fod yn rhydd o amserlenni i dreulio mwy o amser gyda'r plant sydd yn eu gofal. Mae nifer o ofalwyr maeth wedi nodi y byddent yn dymuno cael amser o'r fath fel mater o drefn pan fydd lleoliad newydd yn cychwyn er mwyn dod i adnabod y plant y maent yn eu maethu yn well. Mae delio gyda'r pandemig wedi agor trafodaeth ynghylch gwneud pethau mewn ffordd wahanol yn y dyfodol.

Roedd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yn cytuno bod y cyfnod argyfwng wedi bod yn heriol i bob plentyn ac wrth i ysgolion ailagor mae effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc wedi dod yn fwy amlwg. Mae Addysg yn gweithio gydag ysgolion i ddarparu pecyn cymorth ac mae'n gweithio'n agosach â'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc hefyd.

Awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol i'r Panel dderbyn trosolwg o'r pethau sydd wedi mynd yn dda a'r hyn nad yw wedi mynd mor dda o ran darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn ystod y pandemig, yn cynnwys agweddau o arferion cyn y pandemig na fyddai neb yn gweld eu colli pe na fyddent yn dychwelyd neu pe byddent yn cael eu gwneud mewn ffordd wahanol.

**Wrth dderbyn yr adroddiad diweddaru a ddarparwyd gan y Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal, cydnabu'r Panel yr heriau unigryw a grëwyd gan y cyfnod a chydnabu ymrwymiad yr holl staff wrth ymateb iddynt; roedd y Panel yn cytuno ar y gweithredoedd a ganlyn –**

- **Gan ystyried y gwaith rhanbarthol, bod y Swyddogion perthnasol o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Iechyd ac Addysg yn cyfarfod i drafod (a) problemau capasiti ac adnoddau a (b) sut mae ansawdd y gwasanaethau ar gyfer y boblogaeth sy'n derbyn gofal yn cael ei arfarnu a'i fesur gyda'r nod o gyflwyno trosolwg lefel uchel i'r cyfarfod nesaf.**
- **Bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymgynghoriad â'r Swyddogion perthnasol yn darparu crynodeb o'r hyn sydd wedi mynd yn dda a'r hyn nad yw wedi mynd mor dda yn ystod y pandemig i'r Panel yn ei gyfarfod nesaf, yn cynnwys agweddau o arferion cyn y pandemig na fyddai neb yn gweld eu colli pe na fyddent yn dychwelyd, neu pe byddent yn cael eu gwneud mewn ffordd wahanol.**

**6 CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y trefniadau ar gyfer cyfarfod nesaf y Panel am 10:00yb, dydd Mawrth 8 Mehefin 2021.

**Annwen Morgan**
**Cadeirydd**



DRAFT

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 17 Mai 2021 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>01248 752520<br>JHuwJones@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mehefin 2021 – Ionawr 2022;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor yn ystod argyfwng Covid-19 gan gydnabod y strategaeth ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor hyd at 30 Ebrill 2021 a gymeradwywyd gan arweinyddion grŵp ar 12 Mai 2020, sy'n nodi'r disgwyliadau o ran cynnal cyfarfodydd o'r pwyllgorau sgriwtini;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy’. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mehefin 2021 – Ionawr 2022. |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

**Cyfnod: Mehefin 2021 – Ionawr 2022**

Diweddarwyd 6 Mai 2021

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Mehefin 2021 – Ionawr 2022

Diweddarwyd 6 Mai 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mehefin 2021** | | | |
| 1 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2020/21**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2021 | |
| | | | | | | | |
| 2 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mehefin 2021 | |
| 3 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2020/21 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>7 Mehefin 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mehefin 2021 | |
| 4 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>3 Mehefin 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mehefin 2021 | |

Tudalen 33

*\ Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mehefin 2021 – Ionawr 2022

Diweddarwyd 6 Mai 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>3 Mehefin 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mehefin 2021 | |
| 6 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2020/21 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mehefin 2021 | |
| 7 | **Newid i'r Cyfansoddiad: Hawliau Dirprwyol – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Buddion Cymunedol Anstatudol**<br><br>Argymelliad i'r Cyngor ganiatau hawliau dirprwyol | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn E Jones<br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mehefin 2021 | Cyngor Llawn<br><br>28 Medi 2021 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Mehefin 2021 – Ionawr 2022

Diweddarwyd 6 Mai 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Gorffennaf 2021** | | | |
| 8 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Gorffennaf 2021 | |
| 9 | **Crynodeb o Gyfrifon Terfynol Drafft 2020/21** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Gorffennaf 2021 | |
| | | | | **Medi 2021** | | | |
| 10 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mehefin 2021 – Ionawr 2022

Diweddarwyd 6 Mai 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 13 Medi 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 12 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 9 Medi 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 13 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 9 Medi 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 14 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mehefin 2021 – Ionawr 2022

Diweddarwyd 6 Mai 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 15 | **Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2020-2030 – Ystad Mân-ddaliadau** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng R G Parry OBE | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 – i'w gadarnhau | |
| | | | | **Hydref 2021** | | | |
| 16 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2021 | |
| | | | | **Tachwedd 2021** | | | |
| 17 | **Cyllideb 2022/23 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>28 Hydref 2021<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>1 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>8 Tachwedd 2021 | |
| | | | | | | | |
| 18 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mehefin 2021 – Ionawr 2022

Diweddarwyd 6 Mai 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 19 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 16 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 20 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 11 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 21 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 22 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mehefin 2021 – Ionawr 2022

Diweddarwyd 6 Mai 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhagfyr 2021** | | | | | | |
| 23 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2021 | |
| 24 | **Cynllun Rheoli AHNE 2021-2025** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2021 | |
| | **Ionawr 2022** | | | | | | |
| 25 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ionawr 2022 | |

Tudalen 39

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17 Mai 2021** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2021-2051** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Alun Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Ned Michael**<br>**01248 752289** |
| **Aelodau Lleol:** | **Holl Aelodau** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

Yn unol a'r gofyn sydd arnom gan Lywodraeth Cymru mae angen i gyflwyno Cynllun Busnes ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) iddynt erbyn y 31 o Fawrth er mwyn diogelu ein lwfans atgyweirio sylweddol o £2.665m y flwyddyn.

Byddwn felly yn argymhell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:-

**A1.** Cynllun Busnes 2021-2051 ar gyfer y CRT, ac yn arbennig cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2021-2022 fel y nodir wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru;

**A2.** Y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer Tai am 2021-2022 fel y nodir yn y Gyllideb Cyfalaf.

**Rhesymau**

**1.0 Cefndir**

**1.1** Mae'r Adroddiad a'r Cynllun Busnes hwn wedi cael ei baratoi mewn ymgynghoriad gyda Swyddogion o'r Gwasanaeth Cyllid. Cynllun Busnes yw'r prif gyfrwng ar gyfer cynllunio ariannol mewn perthynas â chyflawni a rheoli stoc dai'r Cygnor. Yn arbennig, mae'r Cynllun Busnes yn nodi:-

sut bydd y Cyngor yn dod â'r cyfan o'i stoc i fyny i Safonau Ansawdd Tai Cymru – er bydd rhai eiddo'n parhau i gael eu categoreiddio fel 'methiannau derbyniol';
- y modd y mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal safonau SATC a rhagori arnynt a
- y buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cynyddu'r stoc tai Cyngor.

**1.2** Mae'r Cyngor, drwy'r CRT, yn berchen ar, ac yn rheoli 3,855 o eiddo a 722 o garejys, ar hyd a lled yr Ynys. Dros gyfnod y Cynllun Busnes hwn fe fyddwn yn gweld y nifer stoc yn cynyddu i dros 5000 o unedau.

**1.3** Mae’r Cynllun Busnes CRT (Atodiad 1) yn cyfrannu at yr holl themâu sylfaenol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae’n cyfrannu yn bennaf at y themâu sy’n ymwneud â Thrawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn, Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi ac Adfywio ein Cymunedau a Datblygu’r Economi.

**1.4** Fel rhan o'r Cytundeb Gwirfoddol a lofnododd Awdurdodau Lleol gyda Llywodraeth Cymru, trafodwyd a chytunwyd ar hyblygrwydd i fenthyca sydd yn caniatáu ar gyfer adeiladu tai Cyngor o’r newydd a chynnal Safonau Ansawdd Tai Cymru.

**1.5** Mae’r CRT yn parhau i gael ei glustnodi’n benodol ar gyfer swyddogaethau Landlord y Cyngor sy’n gysylltiedig â’r stoc dai Cyngor. Mae hyn yn golygu na chaiff y Cyngor roi cymhorthdal i dai Cyngor o’r gronfa gyffredinol.

## 2.0 Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC)

2.1 Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gwrdd â SATC ers 2012, yr ail Awdurdod yng Nghymru i gyflawni'r safon ar y pryd.

Dywed Safon Ansawdd Tai Cymru y dylai bob aelwyd gael y cyfle i fyw mewn tai o ansawdd da sydd:

· Mewn cyflwr da.
· Yn ddiogel.
· Wedi eu gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran defnyddio tanwydd ac wedi'u hinswleiddio'n dda. · Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern.
· Wedi eu rheoli'n dda.
· Wedi eu lleoli mewn amgylchedd deniadol a diogel.
· Yn cwrdd â gofynion penodol yr aelwyd i’r graddau y mae hynny’n bosib (e.e. gofynion pobl ag anableddau penodol).

## 3.0 Rhaglen Gyfalaf 2021-2022

3.1 Mae Rhaglen Gyfalaf o £9.555m wedi ei gynnwys o fewn y Cynllun Busnes, mae hyn yn ar gyfer gwaith mewnol / allanol, gwaith risg tân, asbestos, addasiadau i'r anabl a gwaith effeithlonrwydd ynni. Mae'r gyllideb hefyd yn caniatáu ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â SATC yn llawn drwy dargedu methiannau derbyniol, gwaith amgylcheddol ac ati.

3.2 Mae darpariaeth o £4.576m wedi ei gynnwys yn y gyllideb refeniw ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

3.3 Yn ogystal mae £9.088m yng nghyllideb 2021-2022 ar gyfer rhaglen ddatblygu tai cyngor newydd ac i brynu cyn tai cyngor ar yr Ynys. Mae’r Cynllun Busnes yn rhagdybio y bydd 45 o unedau’n cael eu datblygu yn 2021-2022 a trwy gydol cyfnod y Cynllun Busnes.

## 4.0 Model Ariannol a Rhagdybiaethau

4.1 Rhaid cefnogi'r Cynllun Busnes ar gyfer y CRT gyda model ariannol 30 blynedd ac Ymhelaethir ar y model ym mhennod 8 o'r Cynllun Busnes.

Cyflwynir dadansoddiad sensitifrwydd gyda'r Cynllun Busnes ac mae'n dangos pa mor gadarn yw'r cynllun. Mae'r rhain yn seiliedig ar ragdybiaethau a pharamedrau allweddol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn darogan pa adnoddau fydd ar gael a pha adnoddau sydd ei angen i barhau i gwrdd â SATC ac i adeiladau tai cyngor newydd, gan anelu at roi sicrwydd ynghylch cynaliadwyedd tymor hir y Cyfrif Refeniw Tai.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Polisi Rhent Tai Cymdeithasol yn Ebrill 2015 ar gyfer awdurdodau lleol a bydd yn weithredol am gyfnod o 5 mlynedd. Mae'r polisi'n anelu at sicrhau cydgyfeiriant rhent rhwng y Cyngor a Chymdeithasau Tai dros gyfnod o amser. Rhagdybir y byddwn fel Cyngor yn cyrraedd lefelau rhent cydgyfeiriant gyda'r Cymdeithasau Tai erbyn 2024-2025.

4.2 Mae incwm rhenti a'r polisi ar gyfer gosod rhenti lleol yn ffactor sylweddol o ran hyfywedd y Cynllun Busnes yn y dyfodol. Mae polisi rhent tai cymdeithasol Cymru wedi ei ddatganoli gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig sydd ar hyn o bryd yn cael ei gynyddu'n flynyddol yn seiliedig ar CPI cyhoeddwyd ar gyfer Medi pob blwyddyn ynghyd a 1% a hyd at £2 yr wythnos tuag at gyrraedd cydgyfeiriant rhent.

4.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu manylion am y cynnydd lefelau rhent am 2021-2022, a osodwyd ar y mynegai prisiau defnyddwyr o 0.5% fel oedd y gwerth ym mis Medi a 1% ychwanegol. Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y cynnydd rhent ar gyfer 2022/22 o 0.45% a hyd at £2 yr wythnos ar gyfer eiddo sydd gyda rhenti is na'r rhent targed yn ystod ei gyfarfod ar 15 Chwefror. Mae'r cynnydd hwn wedi'l gynnwys gyda'r incwm rhent a gyllidebwyd a rei gyfer ar gyfer 2021-22.

4.4 Rhoddwyd prawf ar gadernid y cynllun busnes i roi ystyriaeth y risgiau yn unigol a gyda'i gilydd a bod y cynllun busnes yn parhau i fod yn hyfyw dros y cyfnod o 30 blynedd.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| D/B |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| YDI |

| DD – Who did you consult? | | What did they say? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cynllun Busnes yn cael ei gymeradwyo gan yr UDA. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Mae'r Swyddog Adran 151 wedi ei fodlonni bod y rhagdybiaethau yn y cynllun busnes yn rhesymol ac yn cydymffurfio gyda chanllawiau LlC a bod y cynllun busnes yn hyfyw ac yn adlewyrchu'r sefyllfa ariannol gyfredol sy'n wynebu'r CRT. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim Sylwadau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |
| | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | Mae'r holl aelwydydd sy'n byw mewn Tai Cyngor yn cael budd o SATC, y rhaglen gyfalaf a chymorth i baratoi ar gyfer newidiadau diwygio lles. |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – Cynllun Busnes CRT 2021 -2051 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysyllltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Adroddiad ar yr Arolwg o Gyflwr y Stoc, 2017 |

This page is intentionally left blank



# CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI

2021 - 2051

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

<u>**Tabl Cynnwys 2021**</u>


| | Cynnwys | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Rhagair | 3 |
| 2. | Cyflwyniad | |
| | 2.1 Gweledigaeth y Gwasanaeth | 4 |
| | 2.2 Trosolwg Strategol | 5 |
| | 2.3 Amcanion Strategol Lleol | 6 |
| | 2.4 Ymateb y Gymuned i Covid-19 | 6 |
| 3. | Ein Tenantiaid | |
| | 3.1 Proffil Ein Stoc Tai | 8 |
| | 3.2 Gosod Rhenti | 8 |
| | 3.3 Ymgysylltu â'n Tenantiaid Gwerthfawr | 8 |
| | 3.4 Ymgynghori ar wella ardaloedd ar ein hystadau | 10 |
| | 3.5 Adolygiad o Dai Gwarchod a Lles Pobl Hŷn | 10 |
| | 3.6 Prosiectau Amgylcheddol - newid ein dulliau | 11 |
| | 3.7 Arolwg STAR | 12 |
| | 3.8 Buddion Cymunedol | 12 |
| | 3.9 Prosiect Digidol Age Cymru/Medrwn Môn | 12 |
| | 3.10 Lles Môn Actif | 13 |
| | 3.11 Ymgynghoriadau | 13 |
| 4. | Ein gwasanaethau | |
| | 4.1 Tîm Rheoli Tai | 14 |
| | 4.2 Trosolwg o Incwm ac Ôl-ddyledion Rhent | 14 |
| | 4.3 Rheoli Stadau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | 16 |
| | 4.4 Canolfan J O'Toole | 16 |
| | 4.5 Ystadegau Defnyddwyr Hawliau Lles | 17 |
| | 4.6 Paratoi at y Dyfodol | 18 |
| | 4.7 Cynhwysiant Ariannol | 19 |
| | 4.8 Dyraniadau ac Amser Trosiant Eiddo Gwag | 19 |
| | 4.9 Cefnogi ein Swyddogaeth Digartrefedd Statudol | 20 |
| | 4.10 Perfformiad Amser Trosiant Eiddo Gwag a Dyrannu | 20 |
| | 4.11 Datblygu Tai | 23 |
| | 4.12 Therapydd Galwedigaethol Gwasanaethau Tai | 25 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5. | Ein Cartrefi | | |
| | 5.1 | Rhaglen Cynnal a Chadw arfaethedig ar gyfer 2021-22 | 26 |
| | 5.2 | Rheoli Risg Tân | 26 |
| | 5.3 | Cynllun Buddsoddi Mewnol | 27 |
| | 5.4 | Gwaith Gwres Canolog | 27 |
| | 5.5 | Gwaith Cynnal a Chadw Allanol Traddodiadol a Gynlluniwyd | 27<br>28 |
| | 5.6 | Gwaith Addasu yn y Sector Cyhoeddus | 28 |
| | 5.7 | Gwaith Perfformiad Ynni | 28 |
| | 5.8 | Gwaith Amgylcheddol | 29 |
| | 5.9 | Cydymffurfio â SATC a'r Strategaeth Fuddsoddi | 29 |
| | 5.10 | Trosolwg o Waith Cyfalaf a Gynlluniwyd 2020-21 | |
| | 5.11 | Gwaith Cronfa Gofal Integredig a gwblhawyd yng Nghae Gwyn, Caergybi | 30 |
| | 5.12 | Cerbydau Fflyd yr Uned Cynnal a Chadw Tai | 31 |
| | 5.13 | Effaith Covid-19 ar yr Uned Cynnal a Chadw Tai | 32 |
| | 5.14 | Gweithio Symudol | 33 |
| 6. | Ein Staff | | |
| | 6.1 | Proffil y Gwasanaethau Tai | 34 |
| | 6.2 | Diogelu | 36 |
| 7. | Dangosyddion Perfformiad | | 37 |
| 8. | Cynllun Ariannol | | 38 |

**1. Rhagair gan Ned Michael, Pennaeth y Gwasanaethau Tai**

Ym mis Chwefror 2020, daethom yn ymwybodol iawn bod y pandemig Covid-19 byd-eang ar fin dod yn Argyfwng Cenedlaethol, a arweiniodd yn ei dro atom fel Gwasanaeth yn gorfod newid ein ffordd o weithio yn radical.

Erbyn dechrau mis Mawrth 2020, symudodd sawl Swyddog Tai i weithio o gartref. Erbyn 23 Mawrth 2020, roedd y DU wedi mynd i mewn i'r cyfnod clo cyntaf, ac erbyn hynny, roedd yr uned Cynnal a Chadw Tai yn delio ag atgyweiriadau brys yn unig ac yn darparu cefnogaeth gymunedol hanfodol i fanciau bwyd a fferyllfeydd ar hyd a lled Ynys Môn.

Roedd yn rhaid i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'n tenantiaid ac yn eu cefnogi newid, gan sicrhau bod cyswllt wyneb yn wyneb yn cael ei leihau, sydd wedi rhoi cyfle i gyflymu dulliau arloesol o ymgysylltu â thenantiaid ar draws ein holl gymunedau ac ar sail amlasiantaethol.

Bydd y Cynllun Busnes hwn yn darparu trosolwg o sut rydym wedi addasu ein gwasanaethau, sut rydym wedi parhau i gefnogi ein tenantiaid a'n preswylwyr fel rhan o'n gweledigaeth ac uchelgais i adfer ar ôl Covid-19.

Cipolwg ar sut mae'r pandemig wedi effeithio ar sawl agwedd ar ein busnes gan gynnwys ein dangosyddion perfformiad, heriau gyda chasglu incwm ochr yn ochr ag oedi gyda phrosiectau cyfredol, sydd wedi bod y tu hwnt i'n rheolaeth.

Wrth i'r rhaglen frechu gael ei chyflwyno, rydym yn edrych ymlaen at symud i'r flwyddyn ariannol newydd gan weithio gyda'n tenantiaid a chyflawni ein rhaglenni gwaith.



**Cefnogodd Swyddogion Cynnal a Chadw Tai a pheirianwyr SKY y gwaith o ddosbarthu PPE i wirfoddolwyr cymunedol a phecynnau lles i denantiaid**




***Cydlynodd y Gwasanaethau Tai ddull ar draws Ynys Môn i drigolion ddatblygu mannau gollwng bwyd lleol er mwyn cefnogi'r cynnydd yn y galw ar ein banciau bwyd.***

## 2. Cyflwyniad

Nod Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, y cyfeirir ato yn y ddogfen fel yr CRT, yw sicrhau bod cynllun ariannol hyfyw ar waith ar gyfer ein buddsoddiad yn stoc dai bresennol y Cyngor, datblygu stoc dai ychwanegol a'n dyheadau ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i'n tenantiaid.

Ar hyn o bryd, mae Gwasanaethau Tai yn rheoli 3855 o anheddau, sy'n cyfateb i incwm rhent amcangyfrifedig o £18.95 miliwn a 722 o garejys am gyfanswm amcangyfrifedig o £314,000 o incwm. Mae'r CRT yn cyllido holl weithrediadau'r Cyngor yn ei rôl fel landlord y stoc dai.

Trwy ddarllen y cynllun hwn byddwch yn cael sicrwydd bod y CRT yn cael ei reoli'n effeithiol ac effeithlon.

### 2.1 Gweledigaeth y Gwasanaeth

Ein Gweledigaeth yw:

***Cartrefi o ansawdd: cymunedau cynaliadwy***

sy'n seiliedig ar ein gwerthoedd fel gwasanaeth sy'n rhan annatod o'n gwaith ac yn gyrru darpariaeth ein gwasanaeth, fel ein bod yn:

- ✓ canolbwyntio ar gwsmeriaid ac yn atebol
- ✓ cynnig gwerth am arian
- ✓ ymrwymo i weithio mewn partneriaeth
- ✓ arloesol yn ein dull o weithio

**Ein blaenoriaethau fydd:**

- Cynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy ar draws Ynys Môn
- Hyrwyddo adfywio stadau, cynyddu cyfranogiad tenantiaid a diogelwch cymunedol
- Gwella ymgysylltiad a chynhwysiant digidol ar draws pob grŵp tenantiaid ac oedrannau
- I ddarparu llety ar gyfer grwpiau penodol, er enghraifft pobl hŷn, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl sy'n symud ymlaen o lety brys i lety mwy parhaol, i gynnwys tai cymdeithasol
- Mynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni, y newid yn yr hinsawdd a thlodi tanwydd
- Cyfrannu at yr adferiad yn sgil y pandemig COVID-19

Nod y Cynllun yw rhoi hyder i'n cyllidwyr, tenantiaid ac Aelodau Etholedig bod adnoddau a gwasanaethau'r CRT yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae rhagor o wybodaeth am bob agwedd ar y cynllun hwn ar gael gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW. E-bostiwch Tai@ynysmon.gov.uk

## 2.2 Trosolwg Strategol

### Y Pandemig Covid

Ni ellir tanamcangyfrif effaith Covid-19 ar ein cymunedau a phobl.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar aelwydydd mewn sawl ffordd, gan gynnwys cynnydd mewn adroddiadau am drais domestig a pherthnasoedd yn chwalu, cynnydd mewn achosion o gamddefnyddio sylweddau (alcohol yn benodol) a thensiynau cymunedol lleol.

***Lefelau diweithdra yng Nghymru yn ystod 2020 ac ers Covid-19 - cynnydd o 2.8% yn 2016 i gyfartaledd o 6% erbyn diwedd 2021 (adroddiad Nomis a'r Adran Gwaith a Phensiynau)***

Mae gwybodaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod Cymru wedi gweld y cynnydd uchaf yn y DU mewn diweithdra, gyda'r ffigurau'n dangos bod diweithdra wedi neidio i 4.6% yn y cyfnod rhwng Awst a Hydref 2020. Nid oes amheuaeth y bydd Ynys Môn yn wynebu canlyniadau ariannol y pandemig Covid am nifer o flynyddoedd i ddod a bydd ein rôl wrth gefnogi ein preswylwyr sy'n wynebu llai o incwm aelwyd a materion ychwanegol sy'n gwneud pobl yn agored i niwed yn hollbwysig. Rydym eisoes wedi gweld ein hachosion cyntaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael diagnosis o 'Covid Hir' ac rydym wedi'u cynorthwyo'n llwyddiannus i hawlio Budd-daliadau Anabledd a Salwch ac yn anffodus mae'n debygol y byddwn yn gweld mwy o achosion.

### Diwygio Lles

Fel y cyhoeddwyd yn eang, mae Diwygio Lles wedi cyflwyno rhai o'r newidiadau a'r effeithiau mwyaf sylfaenol ers cyflwyno'r Systemau Lles yn 1946. Daeth Diwygio Lles i rym yn Ynys Môn yn hwyr yn 2018 ar ddull graddol. Ym mis Gorffennaf 2020, comisiynwyd Asesiad Cychwynnol o'r effeithiau posibl o'r cynnydd yn y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ar wasanaethau a chyllidebau CSYM. Amlygodd yr adroddiad hwn y cynnydd yn nifer yr hawlwyr allan o waith mewn cyfnod byr iawn yn ystod Covid a bod hyn yn effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc a gwrywod. Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at effeithiau cymdeithasol y cynnydd mewn diweithdra sy'n cynnwys materion iechyd meddwl, cam-drin domestig a theimlo'n ynysig.

### Brexit

Mae'r Gwasanaethau Tai, fel rhan o'r tîm cynllunio Brexit Corfforaethol, wedi asesu'n barhaus y sefyllfa o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Nid yw Brexit yn cael effaith ar y ffordd yr ydym yn gosod eiddo.
Ar 1 Ionawr 2021, gwnaed newidiadau i reolau mewnfudo'r DU. Efallai y bydd gofyn i ni gynnal gwiriadau cymhwysedd preswyl ychwanegol i sicrhau bod statws mewnfudo'r ymgeiswyr yn caniatáu mynediad i Gofrestr Tai'r Cyngor. Yn ogystal, bydd mynediad at arian cyhoeddus a chymorth digartrefedd yn dibynnu ar statws mewnfudo.

Nid yw'r Gwasanaethau Tai yn cael cyllid uniongyrchol gan yr UE, ond rydym yn ymwybodol bod rhai partneriaid, fel Menter Môn, yn gweithredu gwasanaethau gydag ERDF a/neu gronfeydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).

Mae pob gwasanaeth a gomisiynwyd gan y Gwasanaethau Tai wedi rhannu eu cynllun Brexit sefydliadol sy'n rhoi trosolwg manwl o'r cynlluniau wrth gefn sydd ar waith os gwelir effeithiau andwyol yn ystod y cyfnod trosglwyddo hwn.

Ar adeg ysgrifennu'r cynllun busnes hwn, ystyrir bod yr asesiad gwirioneddol o effeithiau Brexit ar Wasanaethau Tai CSYM yn gynamserol, ond bydd y sefyllfa'n cael ei hasesu'n barhaus trwy gydol y flwyddyn.

## 2.3 Amcanion Strategol Lleol

**Mae tai yn chwarae rôl bwysig iawn yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn cyfrannu at nifer o'i amcanion.**

- Wrth adeiladu tai newydd a gwella ein stoc bresennol byddwn yn creu effaith yn lleol ac yn cynnig buddion cymunedol.
- Bydd darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yn Ward Aethwy yn sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau.
- Byddwn yn parhau i roi cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan mewn gwella gwasanaethau ac yn rhoi'r sgiliau a'r hyder i bobl allu cymryd rhan yn eu cymunedau drwy sefydlu grwpiau cyfranogiad tenantiaid.


Bydd dwy Strategaeth yn cynorthwyo i gyflawni'r amcanion hyn, sef Strategaeth Tai Dros Dro 2021 a Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol 2018-2023. Mae'r strategaethau hyn yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu cyflenwad o dai fforddiadwy a sut mae tenantiaid yn cymryd rhan mewn dylunio a datblygu gwasanaethau.

**Cysylltiadau â Strategaeth Dai Leol Dros Dro (2021)**

Mae'r Strategaeth hon yn nodi amcanion y Cyngor ar gyfer pob math o ddeiliadaethau tai ar yr Ynys i gwrdd ag anghenion tai a nodwyd ac i sicrhau safonau tai uchel ar gyfer pob dinesydd.

Mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn un ffordd bwysig o gyflawni'r amcanion cyffredinol hyn a bydd yna gysylltiadau agos rhwng y ddwy ddogfen a'r gweithrediadau.

## 2.4 Ymateb y Gymuned i Covid-19



Mae'r pandemig Covid-19 wedi creu dull ledled yr Ynys o ddarparu cefnogaeth hanfodol dan arweiniad y gymuned i breswylwyr, mewn partneriaeth â CSYM, darparwyr 3ydd sector, cynghorau tref a chymuned, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Prawf.

Bydd cryfder ac ewyllys parhaus staff, gwirfoddolwyr ac asiantaethau partner CSYM yn hanfodol i adferiad cymdeithasol a chymunedol. Arweiniodd y Gwasanaethau Tai'r ymateb cymunedol i Covid-19 ar draws Ynys Môn ac maent yn parhau i wneud hynny, gan sicrhau bod tenantiaid a thrigolion yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn.

Datblygodd y Gwasanaethau Tai y ganolfan gyswllt frys gorfforaethol yn gyflym, a oedd ar agor 7 diwrnod yr wythnos gan gynnwys gwyliau banc. Roedd y tîm yn delio â'u gwaith arferol o ddydd i ddydd a oedd yn cynnwys cyngor ac arweiniad yn ymwneud â thai ochr yn ochr ag atgyfeiriadau i Linc Môn a/neu'r banc bwyd.

Mae staff sydd wedi'u hadleoli o bob rhan o'r cyngor wedi cyfrannu at ymateb y cyngor dan arweiniad y Gwasanaethau Cymdeithasol i Brofi am Covid-19, ac yn ddiweddarach y cynllun Profi Olrhain Diogelu. Mae'r ddau wasanaeth yma ar gael 7 diwrnod yr wythnos a byddant yn parhau ar gyfer y dyfodol agos.

**Cymorth Banc Bwyd**

Cafodd swyddog Cyfranogiad Tenantiaid ei adleoli i weithio o fewn y gwasanaethau rheng flaen a chydlynodd fanc bwyd pop-up a ddatblygwyd ar frys yn Llangefni. Cafodd y swyddog Cyfranogiad Tenantiaid arall ei adleoli dros dro i gefnogi'r cynlluniau Profi Olrhain Diogelu cychwynnol.

Ail-leolwyd sawl Swyddog Cynnal a Chadw Tai i gefnogi ymdrechion cymunedol ledled Ynys Môn, yn sicrhau bod gwirfoddolwyr cymunedol yn cael PPE ac yn cludo cyflenwadau bwyd i'n banciau bwyd, sydd wedi gweld cynnydd yn y galw am eu gwasanaethau.







***Swyddogion Cynnal a Chadw Tai yn gweithio o'r banc bwyd dros dro yn Llangefni***

## 3. Ein Tenantiaid

### 3.1 Proffil stoc

**Proffil y Stoc Dai**

| Mathau o Anheddau | Cyfanswm | Canran o'r Stoc | Rhent Cyfartalog 2021/22 |
|---|---|---|---|
| 1 ystafell wely | 733 | 19% | £84.73 |
| 2 ystafell wely | 1366 | 36% | £93.92 |
| 3 ystafell wely | 1668 | 43% | £103.08 |
| 4/5 ystafell wely | 85 | 2% | £110.85 |
| **Cyfanswm** | 3852 | 100% | |

### 3.2 Gosod Rhenti

Yn y blynyddoedd diwethaf bu'n rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn ddilyn y dull o gynyddu lefelau rhent trwy ddefnyddio 'Bandiau Rhent Targed'. Ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu 'atal' y bandiau targed hyn ar yr amod nad yw'r incwm rhent blynyddol a gesglir yn cynyddu mwy na +1% yn uwch na'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI).

Gan fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu atal y Bandiau Rhent Targed ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22, penderfynwyd cynyddu rhent yr holl denantiaid hyd at y trothwy blynyddol o 1.5%. Trwy wneud y cynnydd hwn byddwn yn creu incwm rhent blynyddol ychwanegol o tua £278,000.

Er mwyn cymhwyso'r codiad rhent blynyddol yn deg ac yn gyfartal ymhlith tenantiaid ac i sicrhau na eir y tu hwnt i'r uchafswm trothwy cynnydd blynyddol, cyfrifir y cynnydd trwy ddefnyddio 'Rhent Cyfredol + 0.45%' ac mae hyn yn berthnasol i bob tenant. Ychwanegir £2.00 yr wythnos at rent y tenantiaid sy'n sylweddol is na'r band rhent targed ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i weithio tuag at gyflawni cydgyfeiriant gyda darparwyr tai cymdeithasol eraill.

Ar hyn o bryd, ni fydd 2729 (72%) o denantiaid y Cyngor yn wynebu unrhyw galedi ychwanegol o ganlyniad i'r codiad rhent arfaethedig a'r taliadau gwasanaeth, gan eu bod yn cael Budd-dal Tai llawn neu rannol neu'n cael Credyd Cynhwysol.

Gan ddefnyddio casgliad o 51 wythnos, bydd y cynnydd arfaethedig mewn rhent ar gyfer 2021/22 yn gynnydd wythnosol o £1.42 ar gyfartaledd. Bydd hyn yn cynyddu'r rhent wythnosol cyfartalog o £95.09 i £96.51.

### 3.3 Ymgysylltu â'n Tenantiaid Gwerthfawr

Mae ein Tîm Cyfranogiad Tenantiaid (TP) yn cynnwys dau swyddog cyfwerth ag amser llawn sy'n cyflawni sawl prosiect dan arweiniad tenantiaid trwy gydol y flwyddyn.

Oherwydd effaith Covid-19 mewn perthynas ag ynysigrwydd cymdeithasol, allgau digidol gan gynnwys adroddiadau gan rai o'n tenantiaid bod eu lles wedi'i gyfaddawdu, bu pwyslais yn ystod 2021-22 ar gefnogi tenantiaid a stadau trwy amrywiol ddulliau gan gynnwys llwyfannau digidol ar-lein.




***Cyfarfod Fforwm Tenantiaid ar Zoom***

**Pympiau Gwres Hybrid Ffynhonnell Aer - sut gwnaethom ymgysylltu â thenantiaid**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau uchelgeisiol i wneud yr holl Dai Cymdeithasol yng Nghymru yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae ein cais am grant i'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio trwy Lywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus.

Bydd y grant yn talu tuag at gost prynu a gosod Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer. Mae tenantiaid o'r ardaloedd a restrir isod wedi bod yn cymryd rhan mewn cynllun peilot.

Cysylltodd y Tîm Cyfranogiad Tenantiaid â thenantiaid Pont y Brenin yn Llangoed (ardal wledig) er mwyn ceisio annog cefnogaeth ar gyfer y cynllun peilot i osod Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer. O'r 27 eiddo oedd yn gymwys, roedd 19 aelwyd eisiau cymryd rhan yn y cynllun. O ganlyniad, roeddent yn un o'r cartrefi cyntaf ledled Cymru i gael system wresogi hybrid newydd.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Abertawe sydd wedi bod yn annog tenantiaid i fod yn rhan o'r prosiect ymchwil 'Byw'n Iach mewn Cartrefi Carbon Isel'. Hyd yn hyn, mae gennym 6 tenant wedi cofrestru i gymryd rhan mewn arolygon a chyfweliadau a fydd yn canolbwyntio'n bennaf ar iechyd, lles cymdeithasol a lles ariannol.






### 3.4 Ymgynghori ar wella ardaloedd ar ein hystadau

Mae St Seiriols a Queens Park Close yn cynnwys 32 eiddo gwarchod, sy'n gymysgedd o fflatiau llawr gwaelod a fflatiau deulawr ar y llawr cyntaf. Mae’r holl eiddo hyn yn rhannu cowt sydd wedi’i leoli rhwng y ddau floc a’r ffiniau muriog.

Mae’r Tîm Rheoli Tai wedi bod yn cael cwynion gan denantiaid ynghylch cyflwr y cowt cymunedol yn rheolaidd ers dechrau 2019. Mae’r cwynion yn cynnwys chwyn yn tyfu, slabiau ansefydlog neu slabiau wedi'u difrodi a thipio anghyfreithlon.

Yn dilyn asesiadau pellach gan y tîm Cynnal a Chadw Tai, canfuwyd bod y cowtiau cymunedol mewn cyflwr gwael ac angen eu gwella, er mwyn cynnal diogelwch tenantiaid.













### 3.5 Adolygiad o Dai Gwarchod a Lles Pobl Hŷn




Yn ystod 2021, bydd y Gwasanaethau Tai yn adolygu iechyd a lles tenantiaid sy'n byw mewn Tai Lloches a byngalos i bobl dros 60 oed. Gwneir y darn hwn o waith mewn partneriaeth â Thîm Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Ynys Môn a bydd yn galluogi'r ddau wasanaeth i gynllunio ymlaen trwy nodi bylchau ac felly, sicrhau bod gwasanaethau a chefnogaeth yn cael eu targedu a'u canolbwyntio trwy ddull anghenion lleol.

Anfonwyd yr holiadur hwn at 1,326 o denantiaid. Bydd y tîm Cyfranogiad Tenantiaid ynghyd ag aelodau eraill o staff ar gael i roi cymorth i lenwi'r holiadur. Rydym yn gobeithio cwblhau’r dadansoddiad o’r holiaduron erbyn dechrau mis Ebrill 2021.



## 3.6 Prosiectau Amgylcheddol - newid ein dulliau










Fel arfer, mae'r Gwasanaethau Tai yn gweithredu'r Gronfa Gwella Amgylcheddol a Chymunedol, sy'n agored i denantiaid neu lesddeiliaid, ac yn caniatáu cynigion o hyd at £5,000 ar gyfer prosiectau amgylcheddol er mwyn gwneud ein stadau a'n cymunedau yn lleoedd mwy diogel, taclusach a brafiach i fyw ynddynt. Mae'r grant hwn ar gael yn flynyddol ac mae'n rhoi cyfle i denantiaid ddod at ei gilydd a gwella eu stad.

Oherwydd y pandemig byd-eang nid oeddem yn gallu bwrw ymlaen â'r gronfa hon yn ei fformat presennol, ond roeddem yn dal i fod eisiau sicrhau bod iechyd a lles ein tenantiaid wrth galon y gwasanaeth. Ailddiffiniwyd y gronfa i fod yn 'gronfa Amgylcheddol Unigol Tenantiaid'.

Roedd y gronfa ar gael i holl denantiaid a lesddeiliaid y Cyngor. Roedd tenantiaid yn gallu dewis pecynnau garddio ar gyfer y cartref neu awyr agored. Roedd y gronfa hon yn boblogaidd iawn a chaeodd y ffenestr atgyfeirio o fewn cwpl o oriau i'w hagor oherwydd y galw mawr.

Gwnaeth y Gwasanaethau Tai hefyd gynnal cystadleuaeth Garddio Cyfnod Clo i Denantiaid, a oedd yn cynnwys 2 Gategori. **'Cynnyrch Cartref Gorau'** a'r '**Ardd Orau'.** Cafwyd dros 40 o denantiaid yn cystadlu.

Anogodd y gystadleuaeth hon denantiaid i gadw eu bysedd gwyrdd yn brysur, i gynnal a chadw eu gardd ac i helpu gydag iechyd a lles yn ystod y cyfnod clo byd-eang. O ganlyniad i boblogrwydd y prosiect hwn, bydd y tîm Cyfranogiad Tenantiaid yn cynnal y gystadleuaeth yn flynyddol.









### 3.7 Buddion Cymunedol

Mae'r Tîm Cyfranogiad Tenantiaid yn parhau i weithio'n agos gyda'r Tîm Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio. Mae'r gwaith yn cynnwys cael y tenantiaid i gymryd rhan yn y gwaith sy'n mynd rhagddo a gwneud penderfyniadau o ran eu cartrefi a'u hardaloedd cymunedol.

Pan fydd y contractwyr PMC ar y safle yn agosáu at ddiwedd yr amserlen waith, byddwn fel arfer yn trefnu cyfarfod gyda'r holl breswylwyr i weld sut yr hoffent ddefnyddio'r gronfa Budd Cymunedol a ddyfarnwyd gan y Contractwr fel rhan o'r contract gwaith.

### 3.8 Arolwg STAR

Mae STAR (Arolwg o Denantiaid a Phreswylwyr) yn fframwaith ar gyfer arolygon cyfnodol o ganfyddiad cwsmeriaid. Profwyd y cwestiynau a'r dulliau yn drwyadl gan ganiatáu i'n Gwasanaeth fesur boddhad cwsmeriaid ac i ni gymharu canlyniadau ag Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eraill.

Mae STAR yn ein galluogi i fesur boddhad cwsmeriaid, meincnodi perfformiad gyda darparwyr tai ac asesu tueddiadau dros amser.

Gall mesur boddhad ein helpu i ddeall profiad ein cwsmeriaid a pha mor dda y mae ein gwasanaethau'n perfformio, gan ganiatáu i ni fynd i'r afael ag unrhyw feysydd gwan. Ymdrechion ac adnoddau i wella lefelau boddhad yn y dyfodol a chanolbwyntio ar feysydd sy'n peri pryder mawr i gwsmeriaid.

Y tîm Cyfranogiad Tenantiaid fydd yn cydlynu Arolwg STAR 2021.

### 3.9 Prosiect Digidol Age Cymru/Medrwn Môn

Mae'r tîm Cyfranogiad Tenantiaid yn gweithio mewn partneriaeth ag Age Cymru Gwynedd a Môn, Medrwn Môn, gwasanaethau oedolion a sawl Hwb Cymunedol ar draws yr Ynys i dreialu prosiect Hwb Rhithwir Ynys Môn. Nod y prosiect yw cefnogi mwy o bobl yn ein cymunedau i gael y cyfle a'r hyder i aros yn gysylltiedig â'u cymunedau yn ddigidol.

Mae'r tîm Cyfranogiad Tenantiaid wedi llwyddo i ddenu 40 o denantiaid dros 60 oed i gymryd rhan yn y prosiect newydd a chyffrous hwn. Bydd pob tenant yn cael cyfrifiadur llechen i'w fenthyg am 3 mis ac yn cael cefnogaeth lawn gan eu hwb/sefydliad lleol, gan gynnwys cefnogaeth gan wirfoddolwyr 'Eiriolwr Digidol, a hyfforddiant gan Gymunedau Digidol Cymru. Mae hwn yn gyfle gwych i breswylwyr sydd am roi cynnig ar ddefnyddio'r rhyngrwyd am y tro cyntaf, sy'n awyddus i wella eu sgiliau digidol neu sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig ac eisiau rhyngweithio â'u ffrindiau a'u teulu mewn ffordd arall.

### 3.10 Lles Môn Actif

Mae'r tîm Cyfranogiad Tenantiaid yn gweithio tuag at yr agenda Pum Ffordd at Les, mewn partneriaeth â Môn Actif i wella iechyd a lles ein tenantiaid. Bydd pob tenant sydd wedi cofrestru i gymryd rhan yn y prosiect yn cael dosbarthiadau ymarfer corff pob dydd gan Môn Actif ar Zoom. Gall y dosbarthiadau hyn fod yn ddwysedd isel neu ddwysedd uchel ac maent yn addas ar gyfer anghenion a gallu pob unigolyn.

Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Môn Actif, gwasanaethau Oedolion ac Age Cymru Gwynedd a Môn ar y cynnig i drigolion 60+ oed. Mae hwn yn brosiect sy'n gweithio tuag at Gynllun Gweithredu Pwysau Iach Cymru Iach (HWHW) 2020-2022 Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn gynnig hamdden cenedlaethol i bobl dros 60 oed, a fydd yn annog gweithgaredd corfforol a dewisiadau ffordd iach o fyw. Mae hwn yn ddull wedi'i dargedu i leihau anghydraddoldebau iechyd ac ynysigrwydd cymdeithasol.

### 3.11 Ymgynghoriadau

**Mae sawl adolygiad/arolwg wedi'u cynnal neu ar y gweill gan y Gwasanaethau Tai, gan gynnwys:**

- Adolygiad a gynhaliwyd gyda phartneriaid ar effeithiolrwydd yr hwb Credyd Cynhwysol, dan arweiniad y Gwasanaethau Tai
- Ymgymerwyd â sawl darn o ymgysylltu mewn perthynas â'r fenter gwastraff bwyd newydd Bwyd Da Môn
- Cynhaliodd y Tîm Comisiynu Grant Cymorth Tai arolwg i asesu effeithiau Covid-19 ar eu defnyddwyr gwasanaeth
- Cynhaliodd y Tîm Comisiynu Grant Cymorth Tai arolwg i asesu effeithiau Covid-19 ar staff cyflenwi
- Mae'r Gwasanaethau Tai wedi bod yn rhan o ymateb i arolygon a gomisiynwyd gan Fenter Môn i asesu effeithiolrwydd eu gwasanaethau mewn ymateb i Covid-19, gan gynnwys y prosiect Neges
- Mae'r Gwasanaethau Tai (y Gwasanaeth Ddigartrefedd, Polisi a Chomisiynu) yn arwain ar Ymgynghoriad ar Strategaeth Dai Dros Dro 2020-21
- Cafodd dros 2,600 o alwadau lles eu gwneud i denantiaid CSYM i wirio eu lles a'u hysbysu am wasanaethau ymateb cymunedol

- Arolwg gwirfoddolwyr Timau Ardal, dan arweiniad Medrwn Môn, mewn partneriaeth â Gwasanaethau Tai CSYM
- Adolygiadau gan y Swyddog Galluogi Tai Gwledig i gynnal asesiadau angen tai lleol ledled yr Ynys gyda'r bwriad o ddatblygu tai cymdeithasol a/neu fforddiadwy i bobl leol

## 4. Ein gwasanaethau

### 4.1 Tîm Rheoli Tai

Mae'r Tîm Rheoli Tai yn dîm o Swyddogion Tai sy'n delio gyda phob agwedd o'r Cytundeb Tenantiaeth gan weithio'n agos â thenantiaid y Cyngor i sicrhau y glynir at amodau'r denantiaeth a bod tenantiaethau'n cael eu cynnal yn llwyddiannus.

Mae **Swyddogion Rhent a Swyddogion Ôl-ddyledion Rhent** yn gyfrifol am fonitro taliadau rhent ac adennill dyledion rhent tra bod Swyddogion Rheoli Stadau yn gyfrifol am orfodi a monitro rhwymedigaethau tenantiaeth, archwiliadau eiddo, arwyddo tenantiaid newydd a thaclo a delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae gan bob Swyddog Tai ardal ddynodedig er mwyn sicrhau perthynas agos a chysondeb i bob un o denantiaid y Cyngor. Mae Swyddog Rheoli Tai'r ardal dan sylw yn delio â chwynion am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol llai difrifol tra bod un o ddau Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn delio ag achosion mwy difrifol neu barhaus.

### 4.2 Trosolwg o Incwm ac Ôl-ddyledion Rhent

Mae effaith y pandemig byd-eang ar yr economi wedi cael effaith niweidiol yn lleol ar incwm unigolion ac aelwydydd. Ers y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020, bu sawl cyfnod o ansicrwydd, sydd wedi esblygu'n barhaus trwy gydol y pandemig. Mae llawer o denantiaid a'u haelwydydd wedi gweld gostyngiad yn eu hincwm oherwydd llai o gyfleoedd cyflogaeth, cael eu rhoi ar ffyrlo, diswyddiad, salwch, hunanynysu, rhwymedigaethau gofalu, sydd nid yn unig yn effeithio ar faterion ariannol ond ar les hefyd.

O ganlyniad, mae sawl menter a phecyn cymorth gan y llywodraeth wedi'u rhoi ar waith ac mae'r Tîm Rheoli Tai (Incwm) wedi bod yn cadw i fyny i sicrhau bod tenantiaid yn cael y cyngor priodol ac yn cael cefnogaeth lawn.

**Ymateb cychwynnol y tîm i'r pandemig oedd;**

a) Cadw tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi
b) Helpu tenantiaid i gael y gefnogaeth ariannol sydd ei hangen arnynt a chyflwynwyd y neges hon i'n tenantiaid a allai fod yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny â thaliadau rhent.

Parhaodd swyddogion i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau trydydd parti fel yr Adran Gwaith a Phensiynau, Hyfforddwyr Gwaith Canolfannau Gwaith, asiantaethau Budd-daliadau, cynghorwyr dyledion er mwyn darparu cefnogaeth a goresgyn yr heriau o fethu â darparu cefnogaeth wyneb yn wyneb, swyddfeydd ar gau, cyfyngiadau teithio a diffyg mynediad i offer digidol a'r rhyngrwyd i rai tenantiaid.


Mae swyddogion wedi addasu prosesau adennill rhent yn unol â deddfwriaeth newydd y llywodraeth, Deddf Coronafeirws 2020, a ddaeth i rym ar 26 Mawrth 2020, sy'n sicrhau y gellir rhoi cyfnodau rhybudd hirach i denantiaid am feddiant a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu troi allan yn ystod cyfnod o gyfyngiadau cynyddol a chyfnodau clo. Mae camau cyfreithiol i adfer ôl-ddyledion rhent wedi lleihau gyda **34** Hysbysiad Ceisio Meddiant wedi'u cyflwyno ers y pandemig, cyn y pandemig cyflwynwyd **246** o hysbysiadau.

Ers y cyfnod clo, ni chyhoeddwyd unrhyw achosion meddiant newydd ac un tenant sydd wedi'i droi allan, a oedd yn ddewis olaf ar ôl nifer o ymdrechion i ddarparu cefnogaeth a dim ymgysylltu.

Mae cynlluniau ad-dalu yn cael eu hystyried fel rhan o'n gwasanaeth, gan gyfrif am effaith y pandemig ar incwm unigolyn a'r heriau y gallant eu hwynebu. Bydd swyddogion yn cadarnhau amgylchiadau ariannol cartrefi, yn nodi meysydd i sicrhau'r incwm mwyaf posibl trwy'r budd-daliadau presennol, cefnogaeth COVID y llywodraeth, grantiau’r trydydd sector, a mentrau lleol fel banciau bwyd a chynlluniau effeithlonrwydd ynni.

Lle mae angen cyngor mwy arbenigol fel gwiriadau budd-dal lles, help gyda hawlio budd-daliadau neu apeliadau ar benderfyniadau budd-daliadau neu gyllidebu mwy manwl a help i leihau gwariant a dyled, cyfeirir tenantiaid at y tîm budd-daliadau yng nghanolfan JE O 'Toole, Tîm Cynhwysiant Ariannol y Cyngor neu Gyngor ar Bopeth.

Mae effaith y pandemig ar allu tenantiaid i dalu wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn ôl-ddyledion rhent, rhwng dechrau'r cyfnod clo cyntaf ar 23/03/20 a 03/01/21 (diwedd chwarter 3) roedd yr ôl-ddyledion wedi cynyddu £80,666. Gwelwyd cynnydd yn y tenantiaid a aeth i ôl-ddyledion uwch gyda chynnydd o 27 cartref yn mynd i ôl-ddyledion o dros £2,000. Er bod lefelau cynnydd ôl-ddyledion rhent yn cynyddu yn ystod y 2 chwarter cyntaf maent wedi lefelu ac yn mynd i mewn i chwarter 4, mae cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent wedi gostwng yn gyffredinol.




Mae nifer y tenantiaid sy'n symud i Gredyd Cynhwysol hefyd wedi cynyddu 275 ers dechrau'r pandemig, sy'n gynnydd o 51% ers y llynedd, gyda 34% yn symud i Gredyd Cynhwysol o fewn 2 fis cyntaf Covid-19. Gan fod credyd cynhwysol yn cael ei dalu 5 wythnos mewn ôl-ddyledion mae hyn wedi bod yn ffactor sylweddol sy'n cyfrannu at y cynnydd mewn ôl-ddyledion yn gyffredinol.

Ail-leolwyd ein Cyn Swyddog Ôl-ddyledion Rhent Tenantiaid ar ddechrau'r pandemig, bu’n helpu yn y banc bwyd ac yn danfon parseli bwyd. Wrth i’r cyfyngiadau gael eu lleddfu, ail-ddechreuwyd canolbwyntio ar leihau dyled. Mae'r ôl-ddyledion wedi cynyddu £7878, gyda llawer o denantiaid yn wynebu heriau ychwanegol yn dilyn oedi ac anawsterau wrth drefnu symud dodrefn a symud.

Ym mis Mai 2020, prynodd y Cyngor system rheoli rhent ac incwm newydd i gynorthwyo wrth flaenoriaethu achosion i atal a lleihau ôl-ddyledion rhent, gan ryddhau amser i Swyddogion ddarparu mwy o gyngor a chefnogaeth.

**Y dyfodol o ran incwm ac ôl-ddyledion rhent**

Rydym yn wynebu sawl her yn y dyfodol gyda llawer o ansicrwydd ynghylch incwm, argaeledd pecynnau cymorth gan y llywodraeth, yr effaith ar yr economi a chyflogaeth a bydd y Swyddogion yn parhau i weithio'n agos gydag ymgynghorwyr cyllid, adrannau budd-daliadau, asiantaethau cyflogaeth a sgiliau i sicrhau ein bod yn barod i ddarparu cyngor a chefnogaeth i'n tenantiaid trwy'r amseroedd anodd hyn.

### 4.3 Rheoli Stadau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Mae achosion neu achosion posib sy’n debygol o waethygu a nodir yn gynnar yn cynnig cyfle am ymyrraeth gynnar gadarnhaol ac yn fwy aml na pheidio, mae’n caniatáu i gefnogaeth briodol gael ei darparu, cyn i’r achos droi’n argyfwng. Gall nifer o broblemau neu bryderon ddod i’r amlwg drwy sianelau eraill megis y Gwasanaethau Cymdeithasol neu ymwneud gan yr Heddlu neu, yn gynyddol, o ganlyniad i Drais Domestig, Cam-drin Sylweddau neu Iechyd Meddwl neu drwy ddarparwyr cymorth. Mae asiantaethau’n cydweithio i sicrhau bod preswylwyr yn cael eu diogelu a’u cynorthwyo a sicrhau bod camau’n cael eu cymryd i ddelio â’r sawl sy’n gyfrifol am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol cyn gynted â phosib.

Mae cwynion yn cael eu cofnodi a’u hymchwilio yn unol â Pholisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Safonau Gwasanaeth y Cyngor a adolygwyd yn 2019 gan grŵp o Swyddogion Tai a thenantiaid sy’n cyfarfod bob chwarter i fonitro perfformiad y tîm. Mae diweddaru a chefnogi achwynwyr drwy gydol y broses gwynion yn allweddol er mwyn cynnal perthynas dda gyda’r cleient a lleihau peth o’r straen a’r pryder a all fod ganddynt.

### 4.4 Canolfan J.E. O’Toole

Mae’r Gwasanaeth Hawliau Lles wedi’i leoli yng Nghanolfan J.E. O’Toole gyda thîm bach hir eu gwasanaeth sy’n cynnwys 3 Chynghorydd llawn amser, un Swyddog Gweinyddol ac Arweinydd Tîm.

Mae'r Ganolfan yn cefnogi; pobl ddi-waith, y sâl a'r anabl, unig rieni, pensiynwyr, gofalwyr a'r rheini ar gyflogau isel trwy ddarparu cyngor a chymorth i hawlio'r budd-daliadau cywir. Mae hyn yn cynnwys credydau treth a thaliadau dewisol, cynyddu incwm i'r eithaf, egluro sut mae budd-daliadau yn cael eu heffeithio pan fydd amgylchiadau'n newid, gwneud cais am grantiau, taliadau dewisol a gostyngiadau, helpu cleientiaid i apelio yn erbyn penderfyniadau budd-daliadau anghywir a delio â phroblemau eraill sy'n gysylltiedig â budd-daliadau.

**Gweithio fel gwasanaeth hanfodol yn ystod y Pandemig Covid**


Cymerodd y Ganolfan ran weithredol mewn prosiectau cymorth dan Arweiniad y Gymuned (Linc Môn) gan sicrhau y byddai unrhyw un y daethom ar eu traws ar yr Ynys a oedd yn cael anawsterau oherwydd gwarchod neu ynysu yn cael cymorth i gael mynediad at fwyd a siopa, meddyginiaethau a phresgripsiynau a gwasanaethau hanfodol eraill trwy'r cynlluniau.


### 4.5 Ystadegau Defnyddwyr Hawliau Lles

Cofnodir ystadegau defnyddwyr yn ôl math o ymholiad - mewn un apwyntiad gall ein Cynghorwyr ddelio â mwy nag un mater budd-dal. Ym mlwyddyn ariannol 2020/21 (hyd at ddiwedd y 3ydd chwarter) cofnodwyd:

- cyfanswm o 3180 o ymholiadau
- 922 o ymholiadau ynghylch budd-daliadau salwch neu anabledd
- 24 ymholiad ynghylch ceisiadau am fathodyn glas
- 268 ymholiad yn ymwneud â Budd-dal Tai/ costau tai o dan Gredyd Cynhwysol

Er bod y nifer fwyaf o ymholiadau o bell ffordd wedi dod gan denantiaid yr Awdurdod Lleol, mae'r Ganolfan yn gweithio ar ran holl drigolion Ynys Môn o bob math o ddeiliadaeth, gan gynorthwyo unigolion i sicrhau'r incwm mwyaf posibl ac aros yn eu cartrefi, gan obeithio lleihau'r galw ar y Gwasanaethau Tai.






Mae ein hystadegau yn dangos hyd at ddiwedd 3ydd chwarter 2020/21

- Roedd **£985,911.59** o gyfanswm yr enillion a nodwyd ar gyfer tenantiaid Awdurdod Lleol, ynghyd â
- **£77,573.40** wedi'i nodi fel taliadau 'un tro yn unig'.

Yn yr un cyfnod:

- Roedd **53.5%** o fudd-dal tai/costau tai o dan faterion Credyd Cynhwysol yr ymdriniodd ein Cynghorwyr â hwy ar ran Tenantiaid Awdurdodau Lleol, gan ddangos ymhellach budd gweithio ar y cyd â'r Swyddogion sy'n gyfrifol am gynnal cyfrifon rhent.
- Roedd **£157,105.84** o Gyfanswm yr Enillon a Nodwyd a £10,572.97 a nodwyd fel taliadau 'un tro yn unig' ar gyfer Budd-dal Tai ac elfen Cost Tai Credyd Cynhwysol, gan gynorthwyo ymhellach i gynnal tenantiaethau ac osgoi ôl-ddyledion rhent.

### 4.6 Paratoi at y Dyfodol

Mae'r newidiadau a ddaeth yn sgil Diwygio Lles yn parhau; er enghraifft, cafodd y 'blociwr' porth i Gredyd Cynhwysol o fod ar Bremiwm Anabledd Difrifol ei ddileu ym mis Ionawr a oedd yn golygu y bydd yn rhaid i lawer o bobl a oedd gynt wedi eu heithrio rhag bod angen symud i Gredyd Cynhwysol wneud y newid hwnnw a bydd angen cyngor a chefnogaeth arnynt. Yn 2020, gohiriwyd dyfarniadau budd-daliadau yr oedd angen eu hadolygu am gyfnod estynedig ond mae'r gohiriad hwn bellach wedi dod i ben ac rydym yn gweld nifer cynyddol o hawlwyr angen cymorth brys i lenwi eu ffurflenni adolygu. Dilynir hyn wedyn gan fewnlifiad o hawlwyr nad ydynt yn cytuno â chanlyniad eu hadolygiad, sy'n golygu nifer uwch na'r arfer o apwyntiadau i herio'r penderfyniadau hyn, ac yn y pen draw, cynnydd yng ngwaith cynrychiolaeth y Tribiwnlys Apêl. Mae hwn yn waith dwys a helaeth sy'n gofyn am apwyntiadau hir a Chynghorwyr yn cael digon o amser i baratoi a chyflwyno ein Rhestrau o Dystiolaeth ysgrifenedig i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi mewn pryd ar gyfer dyddiadau gwrandawiad.

Nid yw gwir faint effeithiau canlyniadol y Pandemig yn hysbys ar hyn o bryd, rydym yn gwybod y bydd iechyd meddwl a chorfforol yn ogystal â chyllid wedi cael eu heffeithio, a bydd angen i ni baratoi ar gyfer yr heriau a ddaw yn sgil hyn orau y gallwn.

## 4.7 Cynhwysiant Ariannol

Mae mynd i'r afael ag effeithiau diwygio lles yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel ar lefel gorfforaethol ac fe'i dangosir yn y modd yr ydym wedi paratoi a buddsoddi mewn meysydd allweddol i liniaru effaith diwygio lles.

Ar hyn o bryd, mae gennym dri Swyddog Cynhwysiant Ariannol yn gweithio ym maes Tai yn darparu cymorth ariannol, cyngor ar gyllidebu a fforddiadwyedd i denantiaid y Cyngor a thenantiaid preifat i ddatblygu eu gallu ariannol. Eu nod yw cynyddu gallu'r tenantiaid i reoli eu harian yn llwyddiannus, lleihau risg ariannol a darparu mynediad at wasanaethau ariannol fforddiadwy i'w helpu i gynnal eu tenantiaeth. Wrth weithio yn y cymunedau, mae'r swyddogion yn achub ar y cyfle i godi ymwybyddiaeth o effeithiau Credyd Cynhwysol.

Mae'r gostyngiad mewn incwm yn unol â chostau cartref uwch a achoswyd gan y pandemig, yn enwedig cartrefi lle mae yna blant gartref, gan fod gwariant cynyddol wedi'i weld yn bennaf mewn meysydd bwyd ac ynni.

Mae’r rhan fwyaf o’r gwaith sydd wedi’i wneud gan y tîm wedi ymwneud â delio â thenantiaid mewn ôl-ddyledion rhent. Mae’r swyddogion wedi gweithio’n agos gyda thenantiaid a gyfeiriwyd gan ein Swyddog Rheoli Tai (Ôl-ddyledion Rhent) i gwblhau ceisiadau Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn (DHP) i glirio neu leihau ôl-ddyledion er mwyn atal achos troi allan rhag gwaethygu. Yn y rhan fwyaf o achosion mae ceisiadau wedi bod yn llwyddiannus ac mae tenantiaid yn fwy parod i ymgysylltu gan wybod mai dewis olaf ydyw.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r Tîm Cynhwysiant Ariannol wedi sylwi ar gynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau gan aelwydydd nad ydynt erioed wedi ymgysylltu â'r tîm Cynhwysiant Ariannol o'r blaen yn benodol ymholiadau ynghylch biliau’r dreth gyngor yn enwedig gan fod y broses adfer wedi'i gohirio yn ystod misoedd cyntaf y pandemig. Mae'r tîm bellach yn gweithio'n agos gyda thîm adennill y Dreth Gyngor i osgoi cymryd unrhyw gamau adennill a chefnogi'r cleientiaid i gael canlyniad llwyddiannus.

## 4.8 Dyraniadau ac Amser Trosiant Eiddo Gwag

### Y Polisi Gosod Tai Cyffredin (PGTC)

Mae'r Polisi Gosod Tai Cyffredin (PGTC) diwygiedig yn weithredol ers Mehefin 2020. Mae Orchard system CRM y Gwasanaethau Tai, wedi'i ail-ffurfweddu'n llawn a chysylltwyd â'r holl ymgeiswyr o dan y PGTC blaenorol er mwyn i'r Gwasanaethau Tai ailasesu eu cais yn seiliedig ar fandiau newydd a chysylltiadau Plwyf. Un o'r prif ysgogwyr dros y newid hwn oedd cadw cymunedau gyda'i gilydd. Roedd hwn yn adolygiad sylweddol ac fe'i cwblhawyd o fewn 3 mis rhwng Ebrill a Mehefin 2020.

Cyn PGTC 2020, roedd nifer y ceisiadau tai ar gyfartaledd yn tua 280-300. Ar ôl PGTC 2020, mae wedi cynyddu i 410 o geisiadau gweithredol, sy'n gadarnhaol.

Ers mis Ebrill 2020, cwblhawyd 213 o ddyraniadau tai sy'n cynnwys 27 symudiad wedi’i reoli mewn perthynas â symud ymlaen ar ôl digartrefedd. O'r 186 o ddyraniadau'r flwyddyn ariannol hon oddi ar y rhestr aros, mae gan 81 o ymgeiswyr/tenantiaid gysylltiadau plwyf lleol o bum mlynedd neu fwy â'r gymuned y mae'r eiddo wedi'i ddyrannu iddynt.

## 4.9 Cefnogi ein Swyddogaeth Digartrefedd Statudol





**Er mwyn ateb y galw cynyddol, mae Bunkabins dros dro wedi'u gosod yn Llangefni, a reolir yn ddyddiol trwy ein Gwasanaeth Cymorth Tai**

Ym mis Gorffennaf 2020, cymeradwyodd Gweithrediaeth CSYM amrywiad i'r PGTC oherwydd y lefelau cynyddol sylweddol o gyflwyniadau digartref yn ystod y don gychwynnol o Covid-19 lle cyrhaeddodd nifer y bobl oedd yn byw mewn llety argyfwng y lefelau uchaf a gofnodwyd. Cyn-Covid, roedd nifer y bobl oedd yn byw mewn llety argyfwng yn Ynys Môn ar gyfartaledd yn 13. Ar ei anterth yn ystod Covid-19, cyrhaeddodd y ffigwr hwn 65 o unigolion. Oherwydd diffyg darpariaeth yn y sector preifat i symud pobl ddigartref ymlaen, cytunodd y Pwyllgor Gwaith y byddai 50% o'r dyraniadau yn cael eu dyrannu yn unol â PGTC arferol a'r 50% sy'n weddill i'r rhai sy'n byw mewn llety argyfwng. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus gyda nifer o drigolion digartref Ynys Môn bellach yn byw mewn llety parhaol, gyda nifer o'r rheini'n cael cymorth cefnogaeth tai parhaus.

## 4.10 Perfformiad Amser Trosiant Eiddo Gwag a Dyrannu

Mae Covid-19 wedi cael effaith ar ein perfformiad mewn perthynas â thargedau trosiant eiddo gwag. Mae hyn i raddau helaeth oherwydd atal symud tŷ yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf. Mae'n bwysig nodi, yn ystod y cyfnod hwn, bod y Gwasanaethau Tai wedi parhau gyda dyraniadau isaf posib er mwyn cefnogi'r rhai a oedd yn byw mewn llety argyfwng, a oedd yn ei dro yn cefnogi'r lefelau uchaf o gyflwyniadau digartref y mae'r adran erioed wedi'u hwynebu - oherwydd effeithiau Covid-19 a diddymu angen blaenoriaeth dros dro.

Mae ein tîm Datrysiadau Tai wedi bod yn gweithio o bell ers Mawrth 2020. Parhaodd Swyddogion Cynnal a Chadw Tai i atgyweirio eiddo gwag, fodd bynnag, gyda chyfyngiadau Covid-19 llym ar waith, roedd gwaith yn cymryd mwy o ddyddiau i'w gwblhau.




**Ein cyfarfod eiddo gwag pob pythefnos**

Oherwydd y cyfyngiadau Covid-19 mae pob cyfarfod i arwyddo tenantiaeth newydd yn digwydd yn rhitiol. Mae hyn er mwyn cynnal diogelwch staff a thenantiaid newydd. Tra bod yr arfer hwn yn parhau, mae'n ychwanegu at nifer o ddyddiau y mae'n cymryd i drosi eiddo gwag oherwydd dibynnu ar wasanaethau post a'r tenant i ddychwelyd eu cytundeb tenantiaeth i swyddfeydd y Cyngor cyn y gellir trosglwyddo'r allweddi.

Pan ddaw eiddo'n wag, mae angen 72 awr i gadw'r eiddo oherwydd asesiad risg Covid-19.

Mae cyfyngiadau wedi ymatal yr Uned Cynnal a Chadw Tai rhag gallu caniatáu cymaint o grefftwyr ddod i mewn i'r eiddo i gyflawni'r gwaith sy'n ofynnol. Mae'r her hon yn dal i fod ar waith i ganiatáu i'r eiddo gwag fod yn glir am 72 awr ar ôl y glanhau diwydiannol dwfn cyn i'r swyddogion Cynnal a Chadw ddod i mewn i'r eiddo.

O ystyried yr holl faterion uchod mae 2020 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus arall i'r tîm. Rydym yn parhau i weithio o bell ar hyn o bryd yn darparu cartrefi fforddiadwy i'n dinasyddion.

### Trosiant Eiddo Gwag - hyd at Ionawr 2021

| | 2018-2019 | 2019-2020 | 2020 - hyd heddiw |
|---|---|---|---|
| **Trosiant mewn dyddiau** | 29.2 | 33.8 | 61.3 |
| **Trosiant mewn dyddiau ac eithrio eiddo anodd ei osod (DTLs)** | 19.1 | 21.9 | 54.1 |

Y gyfradd trosiant ar gyfer eiddo a ddaeth yn wag ac a ddyrannwyd ers 21 Medi 2020 yw 35.1 diwrnod. Y targed a osodwyd ar gyfer eleni yw 36 a 26.

### Nifer yr eiddo a osodwyd i denantiaid

| 2018-2019 | 2019-2020 | 2020 - hyd heddiw |
|---|---|---|
| 259 | 304 | 203 |

Mae'r tabl hwn yn tynnu sylw at y gwahanol fathau o geisiadau ar y rhestr aros o'i gymharu â'r llynedd (cymharydd Blwyddyn ar Flwyddyn)

| Math o Gais | Chwefror 2020 | Chwefror 2021 |
|---|---|---|
| **Rhestr Aros** | 174 | 251 |
| **Trosglwyddo** | 36 | 117 |
| **Digartref** | 75 | 47 |
| **Cyfanswm** | **285** | 415 |

### Nifer yr eiddo a brynwyd yn ôl/adeiladau newydd a osodwyd

Mae 2020 wedi bod yn gyfnod cyffrous iawn i'r Gwasanaeth o ran eiddo a Brynwyd yn Ôl ac Adeiladau Newydd. Mae nifer y 'Cartrefi Newydd' rydym wedi gallu eu hychwanegu at ein stoc dai wedi bod 3 gwaith cymaint â'r flwyddyn flaenorol.

| 2019-2020 | 2020 - hyd heddiw |
|---|---|
| 7 | 21 (ynghyd â 5 symudiad wedi'i reoli) |

Rydym yn edrych ymlaen at ychwanegu mwy o eiddo i'n stoc dai wrth i bob blwyddyn fynd heibio.


### 4.11 Datblygu Tai


Mae darpariaeth o £9,088 miliwn wedi'i chynnwys yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer datblygu cartrefi cyngor newydd yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.


Yn ystod y flwyddyn byddwn yn disgwyl gweld 58 o dai cyngor newydd yn cael eu cwblhau o fewn 5 datblygiad yn Rhosybol, Llanfachraeth, Amlwch a dau ddatblygiad yng Nghaergybi.

Yn ogystal, byddwn yn caffael 15 cartref ychwanegol trwy brynu cyn eiddo cyngor a werthwyd trwy'r Hawl i Brynu yn ôl.

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) hefyd yn edrych ar y trydydd datblygiad cynllun tai gofal ychwanegol ar yr ynys a fydd yn gynllun 40 uned yn ardal Aethwy. Disgwylir y bydd y gwaith yn dechrau ar y datblygiad hwn yn ystod 2022/23.






**Stryd Vulcan, Caergybi**




**Tai Arloesol Tre Ifan, Caergeiliog**



**Ty'n Coed, Moelfre**

## 4.12 Therapydd Galwedigaethol Gwasanaethau Tai



Yn 2020, recriwtiodd y Gwasanaethau Tai eu Therapydd Galwedigaethol cyntaf.

Prif nodau'r swydd hon yw cynghori a chefnogi tenantiaid y Cyngor a thenantiaid sy'n dod i mewn ynghylch anghenion iechyd a lles a gofynion addasu o fewn amrywiol ffrydiau gwaith sy'n fewnol i'r Gwasanaethau Tai.

## 5. Ein Cartrefi

### 5.1 Rhaglen Cynnal a Chadw wedi'i Chynllunio ar gyfer 2021-22

Mae'r Rhaglen Cynnal a Chadw wedi'i Chynllunio ar gyfer 2021/22 a ddangosir yn y tabl isod, sy'n werth £9.555 miliwn (ac eithrio datblygiadau newydd) yn clustnodi'r adnoddau cyfalaf sydd wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Busnes. Yn sail i'r rhaglen mae data cyflwr stoc a gasglwyd yn annibynnol a fydd yn cyfrannu at ein Strategaeth Rheoli Tai a'r Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol.

Mae'r Rhaglen Buddsoddi Sector Cyhoeddus hon yn rhan o'r Cynllun Cyfalaf Corfforaethol ar gyfer 2021/22.

| ***Cynllun*** | **2021/22 (£ '000)** |
|---|---|
| | |
| *Gwaith Mewnol SATC ac Asbestos* | 1,750 |
| *Ymrwymiadau ar gontractau presennol a'r Rhaglen Cynnal a Chadw Traddodiadol* | 4,725 |
| *Rheoli risg tân* | 450 |
| *Gwaith Gwres Canolog* | 400 |
| *Gwaith Amgylcheddol* | 880 |
| *Gwaith Perfformiad Ynni* | 1,000 |
| *Addasiadau Sector Cyhoeddus* | 350 |
| *Adnewyddu Fflyd yr Uned Gynnal a Chadw Tai* | |
| | **9,555** |

| ***Cyllido:*** | **2020/21 (£ '000)** |
|---|---|
| | |
| *Lwfans Atgyweiriadau Mawr* | 2,660 |
| *Cyfraniadau Refeniw* | 6,895 |
| *Grant GTA* | |
| *Benthyca* | |
| | **9,555** |

## 5.2 Rheoli risg tân

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Gorchymyn Diwygio Diogelwch Tân 2005 rydym wedi clustnodi swm o £450,000 ar gyfer diweddaru a/neu adnewyddu offer ymladd tân a systemau darganfod tân er mwyn cydymffurfio ag asesiadau risg tân. Yn ystod 2020/21, mae ein contractwr arbenigol wedi parhau i gynnal asesiadau risg tân blynyddol sydd yn sail i gynlluniau gwariant ar gyfer 2021/22.

Yn ystod 2020/21 adnewyddwyd dros 100 o ddrysau tân mewn fflatiau yn llwyddiannus. Roedd y fanyleb ar gyfer gosod drysau sydd yn gwrthsefyll tân am 1 awr (FD60). Yn ystod 2021/22 rydym yn cynnig dyfarnu contract pellach i barhau â'r gwaith hwn.

Mae cynlluniau buddsoddi ar gyfer 2021/22 yn darparu ar gyfer gosod systemau llethu tân mewn 2 o'n blociau fflatiau uchder canolig yn Llangefni a Phorthaethwy Bydd cwblhau'r cynnig hwn yn llwyddiannus yn sicrhau bod systemau chwistrellu diogelwch tân wedi cael eu gosod yn ein pedwar bloc fflat uchder canolig.

## 5.3 Cynllun Buddsoddi Mewnol

Mae'r gyllideb yn dyrannu swm o £1.750 miliwn er mwyn mynd i'r afael â gwrthodiadau SATC, elfennau cyfalaf sy'n cael eu huwchraddio ar adeg newid tenantiaeth ac ar gyfer y gwaith parhaus o osod ceginau, ystafelloedd ymolchi a gwneud gwaith ail-wifro wrth iddynt ddod i ddiwedd eu cylch bywyd.

Bydd y gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol ar nifer y methiannau derbyniol yr adroddir arnynt i Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae'r gyllideb yn dyrannu arian tuag at adnewyddu 100 o geginau nad oeddent yn rhan o'r rhaglen graidd SATC wreiddiol. Mae'r ceginau hyn yn dynesu at ddiwedd cylch bywyd disgwyliedig yr elfen.

Defnyddir y gyllideb hon hefyd i reoli asbestos yn barhaus o fewn y stoc dai neu, lle bo'n briodol, i gael gwared ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos.

## 5.4 Gwaith Gwres Canolog

Yn ystod 2016/17 rydym wedi dechrau ar raglen i osod boeleri newydd i uwchraddio ein hen foeleri sydd yn gynyddol annibynadwy. Cafodd y rhaglen ei hatal yn ystod 2020/21 oherwydd y pandemig coronafeirws.

Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhelir arolwg o'r system wresogi bresennol ac os oes angen rheiddiaduron newydd byddant yn cael eu gosod fel rhan o'r rhaglen adnewyddu boeleri. Bydd hyn yn caniatáu i ni sicrhau bod y systemau a osodir yn addas i'r pwrpas, o'r maint cywir a'u bod mor effeithlon â phosib ar gyfer ein tenantiaid. Ar ôl cwblhau'r gwaith byddem yn disgwyl gweld gostyngiad yn y gost o alw allan ein peirianwyr gwresogi.

Ar gyfer 2021/22, rydym wedi clustnodi cyllideb o £400,000 i barhau â'r rhaglen hon a byddwn yn ceisio gosod oddeutu 200 o foeleri nwy newydd. Yn ogystal, yn dilyn cais llwyddiannus i Raglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru, byddwn yn gosod 45 Pwmp Gwres Ffynhonnell Aer hybrid i ategu'r boeleri LPG presennol. Asesir llwyddiant y datblygiad arloesol hwn i lywio cynlluniau buddsoddi a thargedau datgarboneiddio yn y dyfodol.

## 5.5 Gwaith Cynnal a Chadw Allanol Traddodiadol a Gynlluniwyd

Cyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer gwaith Cynnal a Chadw Traddodiadol a Gynlluniwyd yw £4.725m sy'n cynnwys ymrwymiad a ddygwyd ymlaen ar gynlluniau sydd ar y safle ar hyn o bryd. Mae'r Gwasanaethau Tai yn cadarnhau bod y pandemig coronafeirws a'r cyfnod clo gorfodol wedi hynny wedi effeithio ar 2 gontract a ddyfarnwyd yn ystod hanner olaf 2019/20 yn cynnwys 120 eiddo.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn parhau i dargedu gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi gan ganolbwyntio'n benodol ar eiddo nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy. Mae cynllun cynnal a chadw newydd wedi'i raglennu i gael ei gaffael a'i ddyfarnu ar gyfer Maes Cynfor, Bae Cemaes yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae cwmpas cyffredinol y gwaith sydd i'w wneud neu ar y safle ar hyn o bryd yn nodweddiadol yn cynnwys ail-doi i gynnwys gosod paneli solar ffotofoltaig, defnyddio system rendro wedi'i inswleiddio, ffenestri a drysau newydd lle bo hynny'n briodol, gwaith allanol i gynnwys llwybrau, ffensys a waliau terfyn.

Bydd y gwelliannau cartref ym mhob un o'r cynlluniau y cyfeirir atynt uchod yn gwella cyfforddusrwydd ac edrychiad y cartrefi yn sylweddol a, lle bo'n berthnasol, yn eu gwneud yn fwy fforddiadwy i'w gwresogi. Bydd gwaith cynnal a chadw allanol traddodiadol a gynlluniwyd yn parhau i ffurfio sail ein cynlluniau buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol.

Mae rhaglenni buddsoddi Cyngor Sir Ynys Môn yn cael eu cefnogi gan Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru ac mae'n cyfrannu at gydymffurfio'n barhaus â SATC.

## 5.6 Gwaith Addasu yn y Sector Cyhoeddus

Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys swm o £350,000 ar gyfer gwaith addasu sylweddol ar gyfer yr anabl. Mae enghreifftiau nodweddiadol o'r gwaith yn cynnwys gosod lifftiau grisiau, cawodydd mynediad gwastad, rampiau ac estyniadau.

## 5.7 Gwaith Perfformiad Ynni

Er mwyn rhoi sylw i fethiannau derbyniol mewn perthynas â pherfformiad ynni, rydym yn targedu buddsoddiad mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy, sef Solar Ffotofoltäig (PV), mewn nifer sylweddol o'n heiddo nad ydynt ar y prif gyflenwad nwy. Ar gyfartaledd eiddo sydd â systemau gwresogi LPG a systemau storio trydan sydd â'r sgôr SAP isaf o blith ein stoc tai.

Rydym yn parhau i ymgysylltu â'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarth (DNO) i gael caniatâd i osod systemau Solar PV niferus ar nifer o stadau nad ydynt wedi eu cysylltu â'r grid. Cafodd un cynllun yn cynnwys 40 eiddo ei dendro a'i ddyfarnu'n llwyddiannus yn ystod Ch4 2020/21.

Rydym yn bwriadu parhau â'r rhaglen hon yn ystod 2021/22 a chlustnodwyd £1 miliwn yn y gyllideb i dargedu 200 o osodiadau pellach a fyddai'n gwneud cyfraniad cadarnhaol o ran targedau effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon.

## 5.8 Gwaith Amgylcheddol

Mae Safon Amgylcheddol SATC yn ei gwneud yn ofynnol i gartrefi gael eu lleoli mewn "amgylcheddau deniadol a diogel y gall trigolion uniaethu â hwy ac y gallant fod yn falch o fyw ynddynt".

Er mwyn cyflawni gwelliannau amgylcheddol, bydd y Gwasanaethau Tai yn parhau i ariannu'r Gronfa Wella Amgylcheddol a Chymunedol lle gwahoddir tenantiaid i gyflwyno ceisiadau am arian tuag at welliannau cymunedol o'u dewis.

Neilltuir cyfanswm o £750,000 tuag at welliannau amgylcheddol yn 2021/22. Bydd cyfran sylweddol o'r gyllideb hon yn cael ei defnyddio i barhau â'r rhaglen dymchwel garejys nad ydynt bellach yn ymarferol i'w cynnal. Bydd y rhaglen hon yn cyflawni gwelliannau amgylcheddol yn ymwneud â pharcio, gwella diogelwch a gwella edrychiad ardaloedd penodol yn gyffredinol. Yn ogystal, defnyddir y gyllideb i wneud gwelliannau a dargedir ar stadau ac uwchraddio gweithfeydd trin y mae'r Gwasanaethau Tai yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu.

## 5.9 Cydymffurfio â SATC a'r Strategaeth Fuddsoddi

Rydym yn fodlon bod yr holl eiddo, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol bosibl, yn cwrdd â SATC ac eithrio'r rhai sy'n cael eu gwrthod neu rai sy'n cwrdd â meini prawf methiant derbyniol. Bydd gwaith gwella ar eiddo a wrthodwyd yn y gorffennol yn cael ei wneud yn awtomatig ar adeg newid Tenantiaeth. Ni allwn ystyried nodi methiant derbyniol oni bai bod cost y gwaith i'w unioni yn anymarferol o safbwynt economaidd.

Mae'r tabl canlynol (nad yw'n cynnwys unrhyw ddatblygiadau newydd nac eiddo a brynwyd yn ôl) yn cadarnhau ein sefyllfa bresennol o ran adnewyddu'r elfennau craidd:

| Elfen | Niferoedd a oedd wedi eu cynnwys yn yr arolwg sgopio gwreiddiol | Cyfanswm a gwblhawyd yn ystod y Cynllun SATC (Hydref 2008 – Rhagfyr 2012) | Cwblhawyd ar adeg newid Tenantiaeth (Ionawr 2013 – Ionawr 2021) | Tenantiaid wedi gwrthod (methiant derbyniol) | Cyfanswm eiddo na chafodd eu nodi ar gyfer gwaith adnewyddu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cegin** | 3073 | 3123 | 391 | 138 | 119 |
| **Cyfanswm ystafelloedd ymolchi/cawodydd mynediad gwastad** | 2271 | 3071 | 366 | 89 | 245 |
| **Ail-wifro** | 1543 | 2728 | 387 | 86 | 570 |

### 5.10 Trosolwg o Waith Cyfalaf a Gynlluniwyd 2020-21

Mae rhaglenni buddsoddi Cyngor Sir Ynys Môn yn cael eu cefnogi gan Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru a bydd yn cyfrannu at welliannau Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Yn ystod 2020-21 roedd cyfanswm y Lwfans Atgyweiriadau Mawr yn £2.67 miliwn a bydd hyn yn sicrhau bod rhaglen gyfalaf i gynnal lefel safon tai.

## Isod mae trosolwg o'r cynlluniau yn ystod 2020-21

### Aberffraw a Rhosneigr

Toeau newydd, ail rendro gyda system insiwleiddio allanol yn ogystal â ffenestri a drysau allanol newydd a gwaith amgylcheddol sy'n cynnwys llwybrau concrit, ffensys a waliau terfyn newydd. Yn ogystal â'r gwaith traddodiadol hwn, roedd yna gynllun i osod paneli solar PV. Gwnaethom hefyd osod mynediad ar gyfer pobl anabl DDA ym mhob byngalo.

**Mae'r rhaglen yn cynnwys 53 eiddo yn y stadau isod:**

- Min y Môr, Aberffraw
- Awel y Môr, Rhosneigr
- Trem y Môr, Rhosneigr





***Min y Môr, Aberffraw***

***Fflatiau Awel y Môr, Rhosneigr***



**5.11 Gwaith Cronfa Gofal Integredig a gwblhawyd yng Nghae Gwyn, Caergybi**

Gwaith adnewyddu mewnol ac allanol yng Nghanolfan Ddydd Cae Gwyn yng Nghaergybi. Bydd y gofynion yn cynnwys gwaith adnewyddu mewnol, newid ffenestri lle bo angen yn ogystal â gwaith amgylcheddol yn cynnwys llwybrau, ffensys a waliau terfyn.



### 5.12 Yr Uned Cynnal a Chadw Tai

**Cerbydau Fflyd**

Mae’r Uned Cynnal a Chadw Tai yn parhau i ddarparu gwasanaeth atgyweirio, cynnal a chadw a gwaith cylchol o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid.

Er mwyn cynnal apwyntiadau trwsio ar yr ymweliad cyntaf mae angen cynnal a chadw cerbydau addas yn rheolaidd a'u newid ar gylchred 7 mlynedd.

Yn ystod 2021, mae angen i ni brynu 8 cerbyd newydd ac yn ystod 2022 bydd angen prynu 21 cerbyd newydd.

Mae’r cerbydau’n cario offer amlsgiliau a stoc o ddefnyddiau i sicrhau bod trwsio ar yr ymweliad cyntaf yn cael ei gyflawni.




### 5.13 Effaith Covid-19 ar yr Uned Cynnal a Chadw Tai

Yn ystod y pandemig mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai wedi bod yn gwneud atgyweiriadau hanfodol, wedi cynnal gwasanaeth y tu allan i oriau, wedi bod yn gweithio ar eiddo gwag ac yn gwasanaethu systemau gwres canolog. Mae'r holl waith arall wedi'i asesu a'i wneud os bernir ei fod yn angenrheidiol ac yn ddiogel i wneud hynny o dan y cyfyngiadau Covid.

Yn ystod chwarter 1 a 2 2019, cafodd 17,363 o orchmynion gwaith eu cwblhau ac yn ystod yr un cyfnod yn 2020 cafodd 10,961 o orchmynion gwaith eu cwblhau sydd, o ystyried y cyfyngiadau Covid yn dal i fod yn swm sylweddol o waith.

Yn ystod anterth y pandemig roedd 18 o weithwyr yn gweithio ar rota 7 diwrnod i helpu gyda’r ymateb i Covid.

Roedd yr ymateb yn cynnwys cyflwyno PPE i sefydliadau partner, meddygfeydd a dosbarthu parseli o fanciau bwyd. Mewn partneriaeth â bwyty Dylan’s, mae bwyd ffres a phrydau wedi'u coginio wedi cael eu danfon i'r digartref a'r rhai sydd eto wedi cael eu heffeithio gan y pandemig p'un ai'n ariannol neu oherwydd nad ydynt yn gallu gadael eu cartref oherwydd gwarchod.

Mae'r holl waith uchod wedi parhau trwy gydol y cyfnod hwn er gwaethaf ein heriau ein hunain megis staff yn gorfod gwarchod, gorbryder ymhlith staff, prinder peirianwyr gwresogi, materion cadwyn gyflenwi a sicrhau bod gan ein gweithwyr a'n contractwyr y PPE a'r deunyddiau glanhau cywir i wneud eu gwaith yn ddiogel mewn eiddo sydd wedi’i effeithio gan Covid 19/gwarchod.




***Swyddogion Cynnal a Chadw Tai yn gweithio mewn partneriaeth â'r prosiect Neges i ddarparu cyflenwadau bwyd hanfodol i aelwydydd bregus a thrigolion sy'n byw mewn llety brys yn ystod y cyfnod clo cyntaf***


### 5.14 Gweithio Symudol

Mae'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r rhaglen foderneiddio, *Gweithio Symudol* wedi parhau i ddatblygu a bydd rhaglen hyfforddi sylweddol ar gael i bob swyddog o'r Gwasnaeth Cynnal a Chadw Tai yn ogystal â'r tîm Gofal Cwsmeriaid o ddechrau mis Mawrth 2021.

Rydym yn rhagweld y bydd y system Accu Mobile yn dod yn fyw yn ystod Gwanwyn 2021. Bydd cyflwyno'r system fodern newydd hon yn caniatáu i ni drefnu gwaith cynnal a chadw mewn ffordd ddeinamig a fydd yn arwain at well gwasanaethau, cynhyrchu ac effeithlonrwydd.

## 6 Ein Staff

### 6.1 Proffil y Gwasanaethau Tai



Rydym yn falch o gydnabod mai ein gweithlu, eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr. Rydym eisiau sicrhau bod tenantiaid Ynys Môn yn cael y gwasanaeth o'r ansawdd gorau sy'n cael ei ddarparu gan weithlu cymwys, medrus a phroffesiynol. Mae cefnogi, hyfforddi a datblygu'r gweithlu yn sylfaenol i arloesi a gwella gwasanaethau ac yn helpu i wneud Ynys Môn yn lle gwych i weithio a byw ynddo.

Mae ein Strategaeth Gweithlu ar waith i ddisgrifio a gweithredu anghenion y gweithlu a sut mae ein gweithlu wedi'i baratoi i gyflawni gofynion y dyfodol.

Mae recriwtio a chadw yn elfennau allweddol o weithlu sefydlog. Mae cael gweithlu sefydlog yn sicrhau dilyniant i denantiaid a chwsmeriaid. Bydd sicrhau bod y gweithlu'n cael ei adnewyddu'n barhaus ac yn cael cyfleoedd hyfforddi yn parhau i ddatblygu'r adran a'i chynnig.

Bob blwyddyn, fel rhan o'r cynllun busnes hwn, bydd yr adran yn blaengynllunio prentisiaethau a hyfforddeiaethau sydd ar gael o fewn y Gwasanaethau Tai, gan sicrhau ein bod yn cysylltu â mentrau'r Llywodraeth sydd ar gael i ddatblygu a gwella sgiliau poblogaeth iau Ynys Môn.

Mae'r Gwasanaeth Cynnal a Chadw Tai wedi parhau i ddarparu gwaith cynnal a chadw ymatebol o ansawdd yn ogystal â rhaglen wasanaethu i'n cwsmeriaid. Rydym yn falch ein bod wedi llwyddo i ychwanegu at ein rhaglen brentisiaeth gyda Chelsea Hagan yn dechrau gyda ni yn ddiweddar fel prentis Paentio ac Addurno.

**Y prif heriau o fewn yr adran o ran recriwtio yw:**

- Recriwtio Peirianwyr Nwy a Phlymio
- Swyddogion Cymorth Tai gyda Sgiliau iaith Gymraeg
- Swyddogion Hawliau Lles gyda Sgiliau iaith Gymraeg

Mae'n bwysig bod y gweithlu'n sefydlog a bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac eisiau parhau i weithio i'r Gwasanaethau Tai. Mae trosiant staff yn y flwyddyn ariannol hon (2020-21) yn 6%, o'i gymharu â chyfartaledd corfforaethol o 9%. Rydym yn falch o'n llwyddiant yn cadw a datblygu ein staff.

Byddwn yn gweithio'n barhaus i ddatblygu gweithlu hyderus, galluog a chymwys sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar gryfderau, pan a lle bo angen, sy'n cwrdd â gofynion cofrestru a rheoleiddio.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn datblygu gweithlu yn amrywio o sesiynau hyfforddi byr i gymwysterau a gydnabyddir gan ddiwydiant, isod mae crynodeb o'n cyflawniadau hyd yma;

- Mae wyth swyddog wedi cwblhau, neu wrthi'n cwblhau, cymwysterau gyda'r Sefydliad Tai Siartredig.

- Mae tri swyddog wrthi'n datblygu eu sgiliau Cynhwysiant Ariannol a Dyled trwy gymwysterau Lefel 3.
- Mae un swyddog wrthi'n astudio MSc mewn Rheoli Prosiectau.
- Mae tri swyddog wrthi'n gwneud Prentisiaethau Technegol mewn Gwaith Coed, Gwaith Trydan a Phlymio.

Mae lles staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac mae pob swyddog wedi cynnal asesiad risg Covid-19 yn y gweithle  gyda'u Rheolwr Llinell i sicrhau bod eu hiechyd a'u diogelwch yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn ein gweithrediadau. Yn ogystal, mae gan staff fynediad at Wasanaeth Cwnsela Medra.

## 6.2 Diogelu



Mae'r Gwasanaethau Tai yn hyrwyddo hyfforddiant corfforaethol hanfodol sy'n cynnwys diogelu. Yn y flwyddyn ariannol hon, mae'r adran Adnoddau Dynol wedi gallu addasu sesiynau hyfforddi i'w cyflwyno ar-lein sydd wedi arwain at lefel uwch o staff yn gallu cymryd rhan.

Ym mis Tachwedd 2020, aeth sawl Swyddog Tai i sesiwn hyfforddi Llinellau Cyffuriau, a gyflwynwyd fel rhan o'r Wythnos Genedlaethol Diogelu.

**Mae cyflawniadau eraill wrth wella ein dealltwriaeth o Ddiogelu yn cynnwys:**

- Dau swyddog o fewn Gwasanaethau Tai CSYM wedi cwblhau'r hyfforddiant Hyfforddi'r Hyfforddwr Trais yn y Cartref yn llwyddiannus
- Diogelu yn eitem agenda sefydlog ym mhob cyfarfod tîm
- Y staff yn gwybod pwy yw Swyddogion Arweiniol Diogelu'r adran
- Mae proffil diogelu yn cael ei godi trwy hyfforddiant, cyfarfodydd tîm, arolygiadau ac enghreifftiau astudiaeth achos
- Aeth sawl swyddog Tai i sesiwn hyfforddi Adolygiad Ymarfer Plant (a elwid gynt yn Adolygiadau Achos Difrifol), a gyflwynwyd gan Y Bont ac yn myfyrio ar 'wersi' a ddysgwyd o achos esgeulustod difrifol/agos at farwolaeth yn Wrecsam
- Rydym wrthi'n creu pecyn cynefino staff newydd a byddwn wedi'i orffen erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyfforddiant diogelu yn rhan o gynefino staff newydd a datblygiad parhaus staff presennol

## 7 Dangosyddion Perfformiad

Mae dangosyddion perfformiad yn cael eu hadolygu bob chwarter trwy broses Craffu Cyngor Sir Ynys Môn.

Fel y soniwyd uchod, ni allwn danamcangyfrif effeithiau Covid-19 ar rai o'n dangosyddion perfformiad, a adlewyrchir isod.

| | 2019-20 | 2020-21 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | **Canlyniad** | **Chwarter 1** | **Chwarter 3** | **2020/21 Targed** | **Perfformiad** |
| Cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus gan denantiaid presennol fel canran o gyfanswm y rhent y gellir ei gasglu am y flwyddyn ariannol ar gyfer llety parhaol | 2.41% (£437,890.81) | 3.32% (£619,583.78) | 3.14% (£578,715.78) | **3.15%** | |
| Cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus gan gyn-denantiaid fel canran o'r cyfanswm rhent a gesglir am y flwyddyn ariannol ar gyfer llety parhaol | 1.43% (£259,129.62) | 1.40% (£261,019.51) | 1.45% (£267,007.38) | **1.50%** | |
| Cyfran y tenantiaid sydd ag ôl-ddyledion o dros naw wythnos | 4.66% | 5.84% | 5.67% | **6.00%** | |
| Ôl-ddyledion cyfartalog | £364.52 | £358.52 | £444.93 | **£300.00** | |
| Ôl-ddyledion cyfartalog ar ddiwedd tenantiaethau | £508.21 | £584.81 | £614.25 | **£550.00** | ↓ |
| Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerir i osod unedau llety parhaol y gellir eu gosod yn ystod y flwyddyn ariannol | 33.8 | 67.2 | 62.1 | **35** | |
| Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerir i osod unedau llety parhaol y gellir eu gosod yn ystod y flwyddyn ariannol (ac eithrio Unedau Anodd eu Gosod) | 21.9 | 64.7 | 54.4 | **26** | |
| Nifer o ailosodiadau sy'n cael eu derbyn ar y cynnig cyntaf | 70.43% | 64.0% | 76.24% | **80%** | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| % o atgyweiriadau arferol a gwblhawyd o fewn yr amserlen | 93.63% | 99.05% | 97.93% | **95%** | |
| % gwaith atgyweirio wedi ei gwblhau mewn un ymweliad | 93.25% | 98.80% | 97.56% | **92%** | |
| Yr amser cyfartalog a gymerir i gwblhau atgyweiriadau ymatebol nad ydynt yn rhai brys (Dyddiau Calendr) | 16.05 | 5.27 | 7.99 | **18** | |
| Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerir i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) | 159.88 | 148.80 | 162.0 | **170** | |

## 8 Cynllun Ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)

### Rhagdybiaethau Ariannol Sylfaenol

Mae rhagdybiaethau ariannol y Cynllun Busnes yn seiliedig ar y wybodaeth ganlynol

- Cyfrifir chwyddiant gan ddefnyddio cyfradd darged y Llywodraeth o 2% y flwyddyn.
- Rhagdybir y bydd cynnydd o 1% uwchlaw'r targed chwyddiant ar wariant ar gynnal a chadw ac adeiladu tai newydd bob blwyddyn.
- Rhagwelir y bydd y rhent targed yn cynyddu 1% uwchlaw lefel chwyddiant bob blwyddyn o 2021/22 .
- Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn 1.5% yn 2021/22 (pan ddisgwylir i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n llawn), ac y bydd yn gostwng 0.1% bob dwy flynedd hyd oni fydd y lefel yn dychwelyd i'r lefel o 0.6% fel yr oedd cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol.
- Disgwylir y bydd colledion oherwydd cyfnodau gwag ('voids') yn 1.5% y flwyddyn.
- Mae'r cynllun cyfalaf yn seiliedig ar yr Arolwg newydd o Gyflwr y Stoc gyda chydrannau'n cael eu hadnewyddu yn unol â rhaglen cylch oes y cydrannau hynny. Bydd arolwg stoc newydd yn cael ei wneud yn ystod 2021/22.
- Tybir y bydd y rhaglen i ddatblygu tai newydd a phrynu hen dai cyngor yn parhau. Yn 2021/22 disgwylir i 45 uned gael eu datblygu 30 adeilad newydd a 15 caffaeliad gyda'r un nifer o 45 uned bob blwyddyn wedi hynny. Bydd cynllun tai gofal ychwanegol 40 uned yn cael ei ddatblygu am gost o £8m ac yn cael ei gwblhau yn 2023/24.
- Ac eithrio'r grantiau cyfalaf a ddyfarnwyd yn ystod 2021/22, tybir y bydd y CRT yn cyllido'r rhaglen ddatblygu yn llawn ar gyfer gweddill oes y cynllun.
- Tybir y bydd y gyfradd llog ar falansau credyd yn 0.03% y flwyddyn. Tybir y bydd benthyciadau newydd yn cael eu cymryd am gyfnod o 50 mlynedd ar gyfradd llog o 2.76%.
- Tybir na fydd dyledion yn cael eu had-dalu'n gynnar.
- Mae incwm arall yn cynnwys incwm o dariffau (Grid Cenedlaethol), comisiwn o werthu yswiriant, taliadau carthffosiaeth a gwaith trwsio y gellir codi amdano.

**Polisi Rheoli Trysorlys**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ymagwedd un gronfa ar gyfer benthyciadau sy'n golygu y bydd costau benthyca'n cael eu rhannu rhwng y gronfa gyffredinol a'r CRT mewn modd sy'n gymesur â'u gofynion cyllido unigol.

**Cyllidebau Cyfalaf a Refeniw 5 Mlynedd**

**Cyllidebau Refeniw**

| | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 | 2025/26 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Rheoli | 3,409 | 3,478 | 3,548 | 3,618 | 3,690 |
| Trwsio a Chynnal a Chadw | 4,576 | 4,768 | 4,992 | 5,226 | 5,443 |
| Costau Eraill | 750 | | | | |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 1,774 | 2,738 | 3,022 | 3,094 | 3,444 |
| Cyfraniad i'r Rhaglen Gyfalaf | 15,983 | 11,242 | 9,849 | 10,290 | 11,046 |
| Cyfanswm Gwariant | 26,492 | 22,226 | 21,411 | 22,228 | 23,623 |
| Incwm Rhent Net | 18,876 | 19,667 | 20,614 | 21,579 | 22,937 |
| Incwm Arall | 638 | 652 | 667 | 682 | 699 |
| Grant AHG | 116 | 116 | 116 | 116 | 116 |
| Cyfanswm Incwm | 19,630 | 20,435 | 21,397 | 22,377 | 23,752 |
| Gwarged/(Diffyg) Refeniw | 6,862 | 1,791 | 14 | 149 | 129 |
| Balans a Ddygwyd Ymlaen | 9,562 | 2,700 | 909 | 895 | 1,045 |
| Balans a Gariwyd Drosodd | 2,700 | 909 | 895 | 1,045 | 1,174 |

**Cyllideb Cyfalaf**

| | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 | 2025/26 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwelliannau a Chynnal a Chadw SATC | 9,555 | 7,712 | 10,490 | 10,805 | 11,129 |
| Tai Newydd | 9,088 | 13,280 | 11,519 | 7,745 | 7,977 |
| Adnewyddu/Ailfodelu Stoc Gyfredol | - | - | - | - | - |
| Gwariant Arall | - | 510 | - | - | - |
| Cyfanswm Gwariant Cyfalaf | 18,643 | 21,502 | 22,009 | 18,550 | 19,106 |
| Cyllido Cyfalaf | | | | | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 2,660 | 2,660 | 2,660 | 2,660 | 2,660 |
| Benthyca | - | 7,600 | 9,500 | 5,600 | 5,400 |
| Gwariant Cyfalaf a ariennir o'r CRT | 15,983 | 11,242 | 9,849 | 10,290 | 11,046 |
| Grant Tai Arloesol | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm Cyllid Cyfalaf | 18,643 | 21,502 | 22,009 | 18,550 | 19,106 |